BookTrust
Getting children reading



Adroddiad Blynyddol

2025/26

Dechrau

Cynnwys

Croeso gan ein Cadeirydd	03
Cyflwyniad	05
Ein gwaith yn 2025/26	07
Creu proffil a chyffro	17
Ein dull o ymdrin â thystiolaeth a dylunio	19
Ein hincwm	20
Ein sefydliad	21
Cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant	22
Cynaliadwyedd amgylcheddol	23
Ein dyfodol	24
Materion allanol	27
Ein cyllidwyr a'n cefnogwyr	28
Polisi codi arian	30
Adolygiad ariannol	31
Risg a llywodraethu	36
Gwybodaeth gyfreithiol a gweinyddol	38
Strwythur, llywodraethu a rheoli	39
Datganiad o gyfrifoldebau'r ymddiriedolwyr	41
Datganiad ynglŷn â datgelu gwybodaeth i'r archwilydd	42
Adroddiad yr archwilydd annibynnol i aelodau BookTrust	43
Datganiad o weithgareddau ariannol	47
Mantolen	48
Datganiad llif arian parod	49
Nodiadau i'r cyfrifon	50

Sut i ddefnyddio'r PDF hwn

Dychwelyd i'r cynnwys

Argraffu dogfen

Tudalen nesaf

Tudalen flaenorol

Croeso gan ein Cadeirydd

Ym mis Mawrth 2026, roeddwn i'n falch iawn o gael fy mhenodi'n Gadeirydd Ymddiriedolwyr newydd BookTrust. Ar ôl gwasanaethu fel Dirprwy Gadeirydd yn flaenorol, rwy'n falch o ailymuno â'r bwrdd ar adeg mor bwysig, wrth i'r sefydliad barhau i gyflwyno ei strategaeth uchelgeisiol, Darllen ar gyfer Dyfodol Mwy Disglair.

Hoffwn ddiolch i John Coughlan CBE, y mae ei wyth mlynedd fel Cadeirydd wedi helpu BookTrust i gyrraedd y sefyllfa gref y mae ynddi heddiw.

Ar adeg pan fo mwyfwy o anghydraddoldeb, mae darllen – a gwaith BookTrust – yn bwysicach nag erioed. Mae nifer cynyddol o deuluoedd rydym yn eu cefnogi yn wynebu rhwystrau, gan gynnwys yr argyfwng costau byw sy'n gosod pwysau cynyddol ar fywyd teuluol, yn ehangu bylchau mewn cyrhaeddiad, ac yn dwysáu heriau yn ymwneud ag iechyd meddwl a lles plant.



Mae ymchwil BookTrust yn dangos y manteision pwerus sydd ynghlwm wrth ddarllen o'r dyddiau cynharaf. Mae darllen ar y cyd yn helpu plant a gofalwyr i adeiladu bond cryf, yn cefnogi plant i gyrraedd cerrig milltir cynnar, yn gwella canlyniadau yn yr ysgol ac yn helpu plant i ddod o hyd i'w lle yn y byd. Ar adeg pan fo cymunedau'n teimlo'n dameidiog ac mae bywyd teuluol dan straen, mae darllen ar y cyd yn parhau i fod yn ffordd syml ond pwerus o ddod â phobl at ei gilydd a sicrhau bod pawb yn cael chwarae teg.

Eleni oedd y flwyddyn gyntaf i strategaeth 2025–2030 BookTrust, Darllen ar gyfer Dyfodol Mwy Disglair, gael ei chyflawni, ac rydym eisoes wedi gwneud cynnydd cryf yn erbyn ein nodau effaith. Gwnaethom gyrraedd dros 1.4 miliwn o blant, gan weithio gyda mwy na 45,000 o ymarferwyr a chyfuno cyrhaeddiad ar raddfa eang gyda rhaglenni seiliedig ar dystiolaeth sy'n cefnogi newid ystyrlon mewn ymddygiad i deuluoedd.

Yn ein gwaith gyda phlant sydd mewn cysylltiad â'r system gofal cymdeithasol, gwnaethom barhau i gryfhau'r achos dros ddarllen i gefnogi bondio, ymlyniad a pherthyn yn uniongyrchol. Cyrhaeddodd y Clwb Blwch Llythyrau (Letterbox Club) dros 9,000 o blant eleni, a chafodd ein cymorth blynyddoedd cynnar i blant sy'n cael gofal gan berthynas, gofal maeth ac sydd wedi'u mabwysiadu ei ymestyn trwy Story Explorers.

Gwnaethom barhau i gyflawni'r gwaith helaeth rydym yn ei wneud yn y blynyddoedd cynnar, gyda mwy na 90% o'r holl fabanod newydd yn derbyn eu llyfr Dechrau Da Babi eu hunain – cyflwyniad cynnar i ddarllen ar y cyd sy'n helpu teuluoedd i feithrin arferion darllen o'r cychwyn cyntaf.



Cyrhaeddodd ein rhaglenni Dechrau Da i Blant Bach a Dechrau Da Oed Cyn Ysgol/Meithrin dros 445,000 o deuluoedd, a pharhaodd ein cynnig Amser Stori Dechrau Da i helpu llyfrgelloedd i agor eu drysau i ymwelwyr newydd.

Trwy ein gwaith gydag ysgolion, rydym wedi parhau i ymwreiddio cariad at ddarllen wrth i blant dyfu. Dosbarthwyd y Great Books Guide i bob ysgol gynradd yn Lloegr a Gogledd Iwerddon, gan helpu athrawon i nodi llyfrau a oedd yn cyd-fynd â diddordebau eu disgyblion. Trwy Bookbuzz a Bookspark, dewisodd mwy na 220,000 o blant lyfrau a oedd yn eu hysbrydoli ac yn ennyn eu diddordeb. Ac yng Nghymru, cymerodd dros 43,700 o blant oedran meithrin a derbyn ran yn rhaglen Pori Drwy Stori.

Yn y Flwyddyn Darllen Genedlaethol hon, rwy'n cael fy nghalonogi i weld darllen plant yn cael y sylw y mae'n ei haeddu. Mae hyn yn ategu ein sgwrs genedlaethol ein hunain a ddechreuwyd trwy ein hymgyrch Hawliau Darllen, dan arweiniad Frank Cottrell-Boyce, Bardd Plant Waterstones, sydd wedi codi proffil darllen ar y cyd yn y blynyddoedd cynnar yn sylweddol. Llwyddodd pŵer cynnull a llais Frank i agor drysau – nid yn unig yn San Steffan, ond mewn cymunedau ledled y wlad. Mae'r ymgyrch yn ysgogi newid go iawn, gyda'n partneriaid yn gwneud ymrwymiadau gwirioneddol i ymwreiddio darllen ar y cyd yn eu gwaith.

Fel arweinydd gweithgarwch blynyddoedd cynnar yn y Flwyddyn Darllen Genedlaethol, bydd BookTrust – gan weithio trwy ein rhwydwaith helaeth o bartneriaid cyflawni – yn parhau i ddod â'r llawenydd y mae rhannu straeon yn ei roi i filoedd o deuluoedd o'r dyddiau cynharaf.

Rydym yn parhau i fod yn uchelgeisiol am yr hyn sy'n dod nesaf, wedi ein llywio gan ein gweledigaeth o fyd lle mae darllen yn rhan o fywyd bob dydd pob plentyn a theulu. Diolch i bawb sydd wedi gwneud y gwaith hwn yn bosibl, gan gynnwys ein staff, ein cyllidwyr a'n sefydliadau partner. Hoffwn estyn diolch arbennig i'n Noddwr, Ei Mawrhydi y Frenhines, am ei chefnogaeth barhaus i ddarllen, ac i Gyngor Celfyddydau Lloegr am ei gefnogaeth barhaus i BookTrust fel Sefydliad Portffolio Cenedlaethol.

Hoffwn ddiolch i'n rhwydwaith o bartneriaid cyflawni, y mae eu harbenigedd a'u gwaith caled yn ein galluogi i gyrraedd y teuluoedd sydd angen cymorth fwyaf ar yr adeg iawn ac yn y ffordd iawn. Mae cefnogaeth barhaus ein partneriaid yn hanfodol i'r effaith rydym yn ei chael, a'r effaith honno sy'n fy ngwneud i mor optimistaidd am y dyfodol. Diolch.

Radha Chakraborty
Cadeirydd yr Ymddiriedolwyr
BookTrust

Cyflwyniad

Mae BookTrust wedi bod yn hyrwyddo pŵer darllen ers dros ganrif, gan chwarae rôl flaenllaw wrth lunio diwylliant darllen cenedlaethol.

Erbyn hyn, ni yw'r elusen ddarllen fwyaf i blant yn y DU. Bob blwyddyn rydym yn cyrraedd dros 1.4 miliwn o blant ledled Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon, gan ddarparu rhaglenni seiliedig ar dystiolaeth sy'n gwneud gwahaniaeth mesuradwy i ymddygiadau darllen plant.

Mae ein gwaith wedi'i wreiddio yn y gred bod pob plentyn yn haeddu'r cyfle i fwynhau darllen a'r holl fanteision gydol oes sydd ynghlwm wrtho.

Mae darllen yn helpu plant i wneud y canlynol:

Goresgyn anghydraddoldebau cyn iddynt ddyfnhau

- Gallant brofi mwy o symudedd addysgol a chymdeithasol
- Mae'r rhai sy'n tyfu i fyny mewn tlodi yn llai tebygol o aros mewn tlodi fel oedolion
- Trwy gydol eu cyfnod yn yr ysgol, maent yn fwy tebygol o oresgyn y rhwystrau sy'n cael eu hachosi gan anfantais

Meithrin perthynas â'r rhai sy'n rhoi gofal iddynt a phrofi gwell lles meddyliol

- Mae teimladau o ddiogelwch a bondiau â rhieni a gofalwyr yn cynyddu
- Maent yn fwy tebygol o brofi gwell lles meddyliol, hunan-barch a gwell sgiliau cymdeithasol-emosiynol
- Maent yn fwy tebygol o fod ag arferion iach

Cyflawni cerrig milltir datblygu cynnar a gwneud yn well yn yr ysgol

- Mae datblygiad yr ymennydd, sylw a gallu gwybyddol i gyd yn gwella
- Maent yn fwy parod ar gyfer ysgol ac yn gwneud mwy o gynnydd ar draws y cwricwlwm
- Mae ganddynt well sgiliau datblygu iaith a lleferydd a llythrennedd

Datblygu empathi, creadigrwydd a dychymyg

- Maent yn meithrin empathi trwy ddarllen ffuglen
- Maent yn datblygu sgiliau datrys problemau creadigol
- Maent yn datblygu eu creadigrwydd a'u dychymyg

Ym mis Ebrill 2025, dechreuodd BookTrust gyflawni ei strategaeth pum mlynedd newydd, Darllen ar gyfer Dyfodol Mwy Disglair 2025–2030. Mae'r strategaeth yn nodi ein gweledigaeth uchelgeisiol, sef byd lle mae darllen yn rhan o fywyd bob dydd plant a theuluoedd.

Mae ein strategaeth wedi'i chynllunio i adeiladu ar y cynnydd y mae BookTrust wedi'i wneud dros y pum mlynedd blaenorol a'i atgyfnerthu, gan ganiatáu i ni wneud y canlynol:

- dyfnhau'r effaith rydym yn ei chael trwy ymwreiddio dulliau effeithiol a arweinir gan dystiolaeth ym mhob un o'n rhaglenni
- ehangu ein cyrhaeddiad i gefnogi hyd yn oed mwy o blant, yn enwedig y rhai o gefndiroedd teuluol agored i niwed
- buddsoddi mewn adeiladu dyfodol cynaliadwy ar gyfer BookTrust trwy gryfhau ein dulliau o gynhyrchu incwm, codi ein proffil allanol a datblygu'r ffordd rydym yn gweithio fel bod ein pobl, ein prosesau a'n penderfyniadau yn barod i gyflawni ein huchelgais.



I wneud hyn, cyflawnir gwaith ar draws tri nod effaith

Nod effaith 1

Mae plant o gefndiroedd teuluol agored i niwed yn adeiladu sylfeini cadarn ar gyfer bywyd trwy ddarllen

Nod effaith 2

Mae darllen ar y cyd yn rhan o fywyd teuluoedd blynyddoedd cynnar sydd ar incwm isel

Nod effaith 3

Mae darllen yn rhan arferol o fywyd bob dydd pob plentyn, gyda ffocws ar y rhai sydd angen cymorth fwyaf

Ein gwaith yn 2025/26

Ein cyrhaeddiad yn 2025/26

- Dros 1.4 miliwn o blant wedi'u cefnogi ledled Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon
- Bron i 2 filiwn o lyfrau yn nwylo plant
- Ein gwaith wedi'i gefnogi gan dros 45,000 o ymarferwyr mewn 22,000 o leoliadau



1.

Mae plant o gefndiroedd teuluol agored i niwed yn adeiladu sylfeini cadarn ar gyfer bywyd trwy ddarllen

I blant sy'n cael gofal maeth, gofal gan berthynas neu blant sydd wedi'u mabwysiadu, mae darllen yn creu eiliadau o gysylltiad sy'n helpu plant ac oedolion i feithrin ymddiriedaeth, agosrwydd a diogelwch emosiynol, yn ogystal â helpu plant i ganfod ymdeimlad o berthyn a chefnogi rheoleiddio emosiynol.

Mae ein tystiolaeth a'n mewnwelediad yn llywio'r gwaith rydym yn ei wneud gyda gofalwyr, ymarferwyr ac arweinwyr lleol i ymwreiddio darllen ochr yn ochr â'r cymorth sydd eisoes yn cael ei roi, gan gryfhau perthnasoedd a chyfrannu at brofiadau mwy sefydlog a chadarnhaol i blant a theuluoedd.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, cyflawnwyd hyn gyda rhaglenni a gynlluniwyd i gynyddu ymgysylltiad, hyder a lles, gan ennyn diddordeb plant trwy eu grymuso gyda dewis a galluogedd a meithrin eu cymhelliant i barhau i ddarllen.

Yn ôl yr ymatebion i'n harolwg, mae:

95% o blant

sy'n derbyn y Clwb Blwch Llythyrau yn ei hoffi neu'n ei garu

77% o blant

sy'n derbyn y Clwb Blwch Llythyrau yn dweud eu bod yn darllen mwy ar ôl derbyn eu parseli

84% o rieni

a gofalwyr y mae eu plant wedi derbyn Story Explorers [27 o'r 32 o rieni/gofalwyr a holwyd] yn dweud bod eu plentyn yn edrych ymlaen at ddarllen ar y cyd neu'n chwilio am gyfleoedd i wneud hynny

Gwnaethom hefyd helpu ymarferwyr i gefnogi teuluoedd i ymwreiddio darllen ar y cyd ac eirioli'n eang dros y rôl y gall darllen ei chwarae i blant sydd mewn cysylltiad â'r system gofal cymdeithasol.

Mae rhaglen y Clwb Blwch Llythyrau yn chwarae rôl ganolog yn y gwaith hwn, gan gyrraedd plant ar draws 65% o ardaloedd awdurdodau lleol yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Darparwyd y Clwb Blwch Llythyrau i dros 9,000 o blant. Mae pob plentyn yn derbyn parsel misol o lyfrau, adnoddau dysgu a gweithgareddau sydd wedi'u cynllunio i ennyn diddordeb a chefnogi datblygiad arferion darllen dros amser.

Y tu hwnt i ddarllen, mae'r rhaglen yn cefnogi ymdeimlad plant o berthyn, yn eu helpu i fagu hyder ac yn rhoi ymdeimlad o berchnogaeth iddynt. Mae derbyn parsel â'u henw arno bob mis yn helpu aelodau'r Clwb Blwch Llythyrau i deimlo gwerth a chymhelliant, ac yn cynnig cyfleoedd cyson hefyd i feithrin arferion darllen cadarnhaol.

Ochr yn ochr â'r Clwb Blwch Llythyrau, mae Story Explorers yn ymestyn y cymorth rydym yn ei roi yn y blynyddoedd cynnar i blant sy'n cael gofal maeth, gofal gan berthnasau neu blant sydd wedi'u mabwysiadu. Mae'r rhaglen hon sy'n seiliedig ar dystiolaeth yn darparu citiau misol i deuluoedd sy'n cyfuno llyfrau a gweithgareddau llawn hwyl i gefnogi darllen ar y cyd gartref.

Mae Story Explorers yn canolbwyntio ar ymddygiadau darllen a pherthnasoedd, gan helpu gofalwyr i greu cysylltiad hyfryd â phlant yn rheolaidd. Mae rhieni a gofalwyr yn dweud bod y rhaglen yn eu helpu i ymwreiddio darllen ar y cyd mewn arferion bob dydd, ac yn cryfhau perthnasoedd hefyd trwy ryngweithiadau rheolaidd, cefnogol. Mae hyn yn arbennig o bwysig i blant sy'n cael gofal maeth, gofal gan berthnasau neu blant sydd wedi'u mabwysiadu, lle mae profiadau rhagweladwy, meithringar yn helpu i feithrin ymdeimlad o ddiogelwch a pherthyn dros amser.

Mae'r ddwy raglen yn dangos sut mae mynediad at lyfrau, ynghyd â chymorth strwythuredig, nid yn unig yn gallu helpu plant i ddatblygu arfer darllen rheolaidd, ond hefyd yn gallu cynnig manteision ychwanegol fel cysylltiad a hyder, sy'n atgyfnerthu canlyniadau cadarnhaol yn y blynyddoedd cynnar a thu hwnt.



*Mae'r enwau wedi cael eu newid

Mae hi'n hoffi'r amser cyswllt, y teimlad bod rhywun wrth ei hymyl yn gwrando arni. Fe fydd hi'n dweud: 'Gwna di un frawddeg, yna fe wna' i un,' neu 'Gwna di'r ochr chwith, fe wna i'r ochr dde.' Mae hi'n hoffi dewis beth sy'n digwydd pan fyddwn ni'n darllen. Rydyn ni'n ceisio rhoi cymaint o hynny iddi â phosibl. Mae cymaint o'i bywyd wedi bod allan o'i rheolaeth. Mae'n bwysig ei bod yn teimlo bod ganddi lais."

Liv, mam faeth i Aanya*, 7 oed, sy'n derbyn y Clwb Blwch Llythyrau

Stori Lola a Rosie

Mae Lola*, sy'n bedair oed, wedi bod yn byw gyda'i nain a'i thaid ers pan oedd hi'n un oed.

Cafodd ei nain, Rosie*, nifer o lyfrau a ddewiswyd yn arbennig i'w rhannu gyda Lola trwy bartneriaeth BookTrust â Kinship, elusen sy'n cefnogi gofalwyr sy'n berthnasau.

"Pan ddes i adref gyda llond llaw o lyfrau gan BookTrust, roedd hi'n teimlo fel Nadolig a phen-blwydd ar yr un pryd," meddai Rosie.

"Roedd Lola mor gyffrous."

"Roedd un llyfr yn arbennig y gwnaethon ni ei ddarllen bob nos am amser hir iawn. Llyfr am octopws oedd e', ac fe wnaeth y llyfr yna sbarduno cymaint o sgyrsiau am yr holl bethau y mae octopws yn gallu ei wneud. Roedd lluniau hyfryd ynddo, a byddai Lola yn treulio'r holl amser yn astudio pob tudalen, yn tynnu sylw at y pethau roedd hi'n eu mwynhau neu roedd hi eisiau rhoi cynnig arnyn nhw. A phob nos roedd hi'n sylwi ar rywbeth newydd."

Bob bore, mae Lola yn dod â phentwr bach o lyfrau i Rosie iddyn nhw gael rannu gyda'i gilydd tra bod coffi Rosie yn oeri. Mae Lola yn hoffi gwasgu i mewn i'r lleoedd lleiaf wrth ymyl ei nain am ei bod hi'n dweud ei bod e'n gwneud iddi deimlo'n 'gynnes a hapus'. Yn ôl Rosie, darllen yw eu 'hamser i gwtsio lan'.

"Pe bawn i'n gallu potelu'r agosrwydd yna a'r eiliadau tawel o chwerthin a'r teimlad o fod gyda'n gilydd yn llwyr, rydw i wir yn credu y byddai mwy o deuluoedd yn cael eu hannog i ddarllen gyda'u plant," meddai Rosie.

"Y llawenydd hwnnw mae Lola yn ei gael o lyfrau a'r amser rydyn ni'n ei rannu gyda'n gilydd sy'n gwneud e' mor arbennig. Amser gwerthfawr iawn. Ac rwy'n credu ei bod e' mor arbennig ei bod hi'n dewis treulio'r amser gyda fi. Pan rydych chi'n teimlo'r bond yna ac yn gweld y mwynhad a'r cyffro mae plentyn yn eu cael pan fydd rhywun yn darllen iddo, mae'n aros gyda chi am byth."



"Roedd e' eisiau dod i eistedd gyda fi... doedd e' ddim eisiau gwneud hynny ar y dechrau. Byddech chi'n amlwg jyst yn darllen, ond mae mwy o ryngweithio'n digwydd... mae'n troi'r tudalennau, ac mae wedi dod yn rhan fawr o'i drefn amser gwely."

Gofalwr maeth sy'n defnyddio pecynnau Story Explorers

*Mae'r enwau wedi cael eu newid

2.

Mae darllen ar y cyd yn rhan o fywyd teuluoedd blynyddoedd cynnar sydd ar incwm isel

Y gwaith helaeth rydym yn ei wneud yn y blynyddoedd cynnar yw conglfaen yr hyn rydym yn ei gyflawni yn BookTrust, ac mae'n darparu cymorth darllen blynyddoedd cynnar ym mhob cymuned yn y wlad. Trwy ein rhwydwaith lleol o bartneriaid cyflawni, rydym yn helpu teuluoedd i rannu llyfrau a straeon o'r dyddiau cynharaf, gan ddarparu cymorth, adnoddau a llyfrau sydd wedi'u dewis yn ofalus. Mae Dechrau Da yn annog teuluoedd i ddarllen mwy, rhoi cynnig ar arferion darllen newydd a magu hyder wrth rannu straeon – y mae pob un ohonynt yn gamau allweddol wrth ddatblygu arferion darllen parhaol.

Mae ein rhaglen Dechrau Da Babi wedi cyrraedd dros 560,000 o fabanod 0–1 oed eleni – 93% o'r babanod a anwyd yn ystod y cyfnod hwn. Ochr yn ochr â llyfr (a roddir trwy ymwelwyr iechyd a chofrestrwyr), mae teuluoedd hefyd yn derbyn arweiniad ar sut i ymwreiddio arfer darllen o enedigaeth. Ym mis Hydref 2025, teitl newydd Dechrau Da Babi, **Four Happy Bunnies**, oedd y llyfr cyntaf i gael ei gomisiynu'n arbennig ar gyfer y rhaglen. Mae'r stori wreiddiol hon am Peter Rabbit yn annog teuluoedd i ymgysylltu â chymeriad poblogaidd trwy ddarluniau ac odlau chwareus.

Cyrhaeddwyd mwy o blant yn gyffredinol gyda Dechrau Da i Blant Bach a Dechrau Da Oed Cyn Ysgol/Meithrin, a thrwy hynny, cyrhaeddwyd cyfran uwch o deuluoedd incwm isel.

Yn ôl yr ymatebion i'n harolwg, mae:



87% o bartneriaid blynyddoedd cynnar

yn cytuno bod adnoddau BookTrust yn eu helpu i ennyn diddordeb plant a theuluoedd incwm isel mewn darllen



76% o deuluoedd

yn cytuno eu bod wedi dysgu rhywbeth newydd o becynnau Dechrau Da i Blant Bach a Dechrau Da Oed Cyn Ysgol/Meithrin am wahanol ffyrdd y gallant ddarllen a rhannu straeon gyda'u plentyn



85% o rieni

a gofalwyr sy'n derbyn pecyn Dechrau Da Babi yn dweud bod darllen a rhannu'r llyfr o'r pecyn wedi eu helpu i deimlo'n agosach at eu babi

Roedd hyn yn bosibl diolch i'r gwaith a wnaethom i fireinio'r llwybrau ar draws ein rhwydwaith partneriaid cyflawni blynyddoedd cynnar – yr ydym yn cyrraedd plant a theuluoedd trwyddo – gan weithio'n arbennig o agos gyda chanolfannau i deuluoedd a lleoliadau aml-asiantaeth lle gall teulu gael gafael ar nifer o wasanaethau a chymorth mewn un lle.

Cefnogwyd dros 445,000 o blant 1–4 oed, yr oedd 77% ohonynt yn dod o aelwydydd incwm isel, gan Dechrau Da i Blant Bach a Dechrau Da Oed Cyn Ysgol/Meithrin, sy'n cael eu darparu trwy bartneriaid dibynadwy mewn canolfannau i deuluoedd, llyfrgelloedd, sefydliadau cymunedol a mwy. Derbyniodd teuluoedd lyfrau o ansawdd uchel sy'n addas i gam datblygu plant, ochr yn ochr â gweithgareddau darllen a gwybodaeth, a chymorth gan ymarferwyr i fodelu sut i ennyn diddordeb plant. Rydym wedi darparu dros 2,000 o setiau Adrodd Stori Dechrau Da, gan gefnogi ein partneriaid cyflawni i ymgysylltu â theuluoedd trwy gynnig awgrymiadau ac arweiniad, propiau adrodd straeon a llyfrau sydd wedi'u dewis i helpu i wneud rhannu straeon yn hawdd.

Cymerodd dros 2,400 o lyfrgelloedd ran yn ein rhaglen Amser Stori Dechrau Da, a chyrhaeddwyd mwy na 60,000 o deuluoedd, yn Lloegr a Gogledd Iwerddon, gan eu cyflwyno i amrywiaeth o lyfrau o fewn amgylchedd cefnogol llyfrgell a'u hannog i barhau i rannu straeon gartref. Pleidleisiodd y llyfrgelloedd a gymerodd ran dros eu hoff lyfr, ac ym mis Mai 2025 dyfarnwyd gwobr BookTrust Storytime i *Ten Little Ducklings* gan Lucy Rowland ac Aki.

Yng Nghymru, cafodd Pori Drwy Stori – ein rhaglen ddwyieithog sy'n anelu at ddatblygu sgiliau llythrennedd, rhifedd, siarad a gwrando – ei chyflwyno i dros 43,700 o blant oedran meithrin a derbyn. Cofrestrodd dros 500 o bartneriaid ar gyfer Amser Rhigwm Mawr Cymru, dathliad blynyddol sy'n annog rhannu rhigymau, cerddi a chaneuon gyda phlant yng Nghymru.

Trwy ein partneriaeth â Build-A-Bear, dosbarthwyd dros 1,000 o eirth i blant oedran meithrin – ochr yn ochr â'n pecynnau Dechrau Da i Blant Bach a Dechrau Da Oed Cyn Ysgol/Meithrin – i annog teuluoedd i rannu straeon gyda'i gilydd.



Mae'n syniad mor hyfryd i roi llyfr i bob babi ac mae'n ffordd wych o annog teuluoedd i ddarllen gyda'i gilydd. Mae e' bendant wedi fy ysgogi i barhau i ddarllen gyda fy mabi ac ers hynny rydw i wedi cofrestru'r ddau ohonon ni gyda'n llyfrgell leol fel ein bod ni'n gallu mwynhau darllen gyda'n gilydd hyd yn oed yn fwy."

Rhiant o Swydd Nottingham sy'n defnyddio pecyn Dechrau Da Babi



Mae ymgysylltu â phartneriaid a'u helpu i ddefnyddio ein rhaglenni'n effeithiol yn rhan allweddol o'n model cyflawni, ac eleni gwnaethom barhau i wella'r cymorth rydym yn ei roi i bartneriaid, wyneb yn wyneb ac ar-lein. Er enghraifft, cynhaliwyd gweminarau rheolaidd i ymarferwyr, gan rannu arferion addawol a'u helpu i ddyfnhau eu dealltwriaeth o bŵer darllen ar y cyd yn y blynyddoedd cynnar. Trwy ymgyrch Hawliau Darllen, aethom ati i ysbrydoli ac ennyn diddordeb gweithwyr proffesiynol, ymarferwyr ac addysgwyr ar draws llawer o wahanol sectorau.

Angela McCabe, Gweithiwr Cymorth i Deuluoedd yn Beechmount Sure Start Belfast, oedd enillydd cyntaf Gwobr Rhannwr Straeon y Flwyddyn fel rhan o Wythnos Rhannu Straeon ym mis Hydref.

Er iddi ei chael hi'n anodd darllen pan oedd hi'n iau oherwydd ei dyslecsia, mae hi nawr yn ysbrydoli teuluoedd i ddarllen gyda'i gilydd, gan redeg rhaglen adrodd straeon chwe wythnos o hyd yn Beechmount Sure Start sy'n defnyddio ein hadnoddau Dechrau Da i Blant Bach i ennyn diddordeb plant a rhieni mewn darllen.

"Mae ennill gwobr am adrodd straeon nid yn unig yn gydnabyddiaeth o'r hyn rydw i'n ei wneud nawr, mae'n ddathliad o pa mor bell rydw i wedi dod. Mae fy nhaith bersonol yn siapio'r ffordd rydw i'n cefnogi teuluoedd heddiw," meddai Angela. "Pan fydda' i'n cynnal sesiynau adrodd straeon i rieni a plant, fe fydda' i bob amser yn eu hatgoffa ei bod hi'n iawn os nad ydyn nhw'n gwybod pob gair. Mae darllen yn ymwneud â chysylltiad, nid perffeithrwydd."

"Mae pecynnau BookTrust yn addas iawn i'r teuluoedd rwy'n gweithio gyda nhw oherwydd maen nhw wedi'u cynllunio i fod yn gynhwysol ac yn hawdd eu defnyddio. Mae'r llyfrau yn aml yn cynnwys lluniau bywiog a thestun syml, a all fod yn arbennig o ddefnyddiol i deuluoedd sydd, o bosibl, yn wynebu heriau fel rhwystrau iaith neu anawsterau llythrennedd. Mae'r gweithgareddau cysylltiedig yn annog rhyngweithio a thrafodaeth, sy'n cefnogi sgiliau cyfathrebu plant ac yn cryfhau'r ymlyniad rhwng y rhiant a'r plentyn."

"Rwy'n annog rhieni i hepgor geiriau os bydd angen, neu jyst i siarad am y lluniau. Mae disgrifio'r hyn maen nhw'n ei weld, gofyn cwestiynau i'w plentyn a gwneud rhannau o'r stori i fyny yr un mor werthfawr. Y rhan bwysicaf yw treulio'r amser hwnnw gyda'i gilydd, yn meithrin perthynas ac yn creu atgofion arbennig trwy lyfrau."

Ychwanega Angela: "Rydw i wastad wedi bod yn angerddol am rannu'r llawenydd mae darllen yn ei roi – nid dim ond y straeon eu hunain, ond yr hud maen nhw'n ei greu rhwng rhieni a phlant. Rwy'n dod â'r llyfrau'n fyw mewn ffordd sy'n helpu teuluoedd i gysylltu, chwerthin, dychmygu a dysgu gyda'i gilydd."

"Trwy bob sesiwn, pob gweithgaredd â thema, a phob llais gwirion neu saib dramatig, rydw i wastad wedi ceisio gwneud darllen yn hwyl ac yn ystyrlon o'r dechrau."



Stori Gemma

Yn ôl Gemma, pan gafodd ei merch ei geni, roedd e'n teimlo "ychydig bach fel corwynt".

"Mae'r teimlad yna o, 'Rydw i newydd ddod adref o'r ysbyty gyda babi newydd, sut ydyn ni i fod i ofalu amdano?' Yna, y diwrnod wedyn, galwodd yr ymwelydd iechyd a rhoi ein **pecyn Dechrau Da Babi** i ni.

Yng nghanol popeth oedd yn digwydd, roedd e'n teimlo fel rhywbeth oedd yn ein hatgoffa i wneud y peth syml yma: cymryd yr amser i ddarllen y llyfr yma iddi."

"Roeddwn i mor gyffrous i wybod bod y llyfr yn briodol i'w hoedran ac yn cael ei argymell gan arbenigwyr," meddai Gemma. "Rydyn ni'n newydd i'r ardal hefyd, felly doedden ni ddim yn gwybod ble roedd ein llyfrgell leol. Fe wnaeth y daflen y tu mewn i'r pecyn fy annog i ffeindio allan. Fe aethon ni i gofrestru Eden ar gyfer cerdyn llyfrgell, a nawr mae mynd yno yn weithgaredd llawn hwyl i ni bob wythnos."

Flwyddyn yn ddiweddarach, wrth i Eden droi'n un, meddai Gemma: "Rydyn ni wedi defnyddio'r llyfr hwn gydag Eden bob dydd. Bob tro mae hi'n anhapus neu rydyn ni'n aros am botel, rydyn ni'n estyn amdano ac yn ei ddarllen iddi. Roedd hi wrth ei bodd o'r diwrnod cyntaf."

"Rwy'n cofio'r diwrnod cyntaf iddi gydio yn y llyfr a thynnu un o'r fflapiau i lawr. Doedd e' ddim yn rhywbeth roeddwn i wedi'i ystyried – doeddwn i ddim yn gwybod a oedd hynny'n rhywbeth i fabanod hŷn. Mae tynnu fflapiau'r llyfr i lawr wedi ei helpu gyda phethau fel defnyddio ei dwylo yn dda pan mae hi'n bwyta. Rydw i wir yn credu mai rhannu'r llyfr dro ar ôl tro sy'n gyfrifol am hynny."

Pan ddaeth hi'n amser i Eden ddechrau yn y feithrinfa, sylwodd Gemma fod ei mwynhad o lyfrau wedi bod yn help mawr gyda'r broses bontio. "Pan mae hi wedi bod yn anhapus mewn sesiynau cynefino, mae staff y feithrinfa wedi dweud, 'Rydyn ni'n dod â rhai llyfrau allan ac mae hi'n tawelu ar unwaith'."

"Mae hi wrth ei bodd yn rhannu llyfr. Rwy'n credu y byddwn ni'n gweld maes o law bod darllen gyda hi yn gynnar wedi gwneud gwahaniaeth mawr oherwydd fe fydd hi'n gyfforddus ac yn gyfarwydd â llyfrau."

3.

Mae darllen yn rhan arferol o fywyd bob dydd pob plentyn, gyda ffocws ar y rhai sydd angen cymorth fwyaf

Mae parhau i adeiladu cariad at ddarllen i blant wrth iddynt dyfu a symud trwy'r system ysgol yn hanfodol er mwyn meithrin arfer darllen gydol oes. Mae ein gwaith gydag ysgolion yn darparu mynediad at lyfrau, profiadau darllen pleserus a'r cymorth sydd ei angen ar athrawon i ymwreiddio darllen er pleser mewn arferion bob dydd.

Trwy Bookbuzz Secondary, ein rhaglen ddarllen i ysgolion, mae myfyrwyr yn dewis llyfr i'w gadw, gan gefnogi ymgysylltiad, cymhelliant, ac ymdeimlad o reolaeth dros ddarllen. Parhaodd y rhaglen i dyfu eleni, gyda thros 220,000 o blant ym Mlynyddoedd 7 ac 8 yn dewis eu llyfr eu hunain o'n detholiad sydd wedi'i ddewis yn ofalus. Gwnaeth Bookspark, sy'n helpu plant ysgol uwchradd Cyfnod Allweddol 3 i gael mwyfwy o fwynhad o ddarllen trwy brofiadau darllen cymdeithasol, gynyddu ei chyrhaeddiad hefyd, gyda bron i 3,000 o blant yn elwa ar y rhaglen.

Yn ôl yr ymatebion i'n harolwg, mae:

98% o athrawon a llyfrgellwyr

yn cytuno bod Bookbuzz Secondary yn eu helpu i annog darllen er pleser

96% o ysgolion

yn rhoi sgôr o 4 neu 5 seren i Bookbuzz Secondary

90% o athrawon

yn cytuno bod Bookbuzz Secondary yn eu helpu i gefnogi myfyrwyr o gefndiroedd o anfantais economaidd-gymdeithasol gyda darllen



"Mae Bookbuzz yn gyfle gwych i'r myfyrwyr hynny sy'n methu cael gafael ar lyfrau yn hawdd ... i ddarganfod eu hunaniaethau darllen eu hunain. Cyfle gwych i fyfyrwyr ymarfer eu hymreolaeth a'u hannibynniaeth darllen eu hunain ... a pherchen ar eu llyfr eu hunain."

Swydd Lincoln, Llyfrgellydd/Rheolwr LRC

Gall pobl ei chael hi'n anodd mynegi eu hunain, felly mae gallu gweld eich hun mewn llyfr yn dda gan ei fod yn caniatáu i chi gael delwedd ehangach ohonoch chi eich hun fel person. Gall hefyd ganiatáu i chi archwilio mwy o bethau. Mae'r ffaith bod gennych chi bethau'n gyffredin yn golygu y gallwch chi gysylltu â'r cymeriad a rhoi cynnig ar bethau newydd."

Jessica, 13 oed, enillydd cystadleuaeth BookTrust Represents



Ym mis Chwefror 2026, lansiwyd ein rhaglen Bookbuzz Primary newydd, sy'n ymestyn ein dull Bookbuzz i fyfyrwyr iau, gan helpu i feithrin arferion darllen cadarnhaol yn gynnar a chefnogi pontio i ddarllen annibynnol. Rydym hefyd yn cefnogi pob ysgol gynradd yn Lloegr a Gogledd Iwerddon gyda'n Great Books Guide, sy'n cefnogi athrawon i lywio tirwedd llyfrau fwyfwy cymhleth, gan ddarparu argymhellion wedi'u dewis yn ofalus i helpu pob plentyn i ddod o hyd i lyfr sydd o ddiddordeb iddo ac sy'n ei gyffroi. A thrwy ein gwefan, ein cylchlythyrau a'n gweminarau, rydym yn sicrhau bod athrawon yn gallu cael gafael ar adnoddau newydd yn rheolaidd, gan gynnwys ymchwil, cyngor ac arbenigedd i gael plant i ddarllen.

Mae BookTrust Represents yn rhaglen sydd wedi'i chreu i hyrwyddo a gwella'r ffordd y mae pobl o liw yn cael eu cynrychioli mewn llyfrau plant fel bod pob plentyn yn darllen ystod o lyfrau sy'n adlewyrchu nhw a'u cymunedau ehangach. Trwy BookTrust Represents, cyrhaeddwyd dros 60,000 o blant, gan eu cysylltu ag awduron a darlunwyr o liw a'u gwaith i gefnogi ymgysylltiad a chynrychiolaeth. Ochr yn ochr ag ymweliad rhithwir gan bob awdur, rydym yn anfon llyfrau am ddim i'r ysgolion sydd â'r gyfran uchaf o fyfyrwyr difreintiedig sy'n cofrestru, ac eleni mae 21,000 o blant mewn 300 o ysgolion wedi elwa ar hyn.

Mewn arolygon adborth, mae ysgolion yn dweud wrthym fod y digwyddiadau yn cael effaith go iawn ar addysgwyr a phlant. Mae'r ystod eang o awduron a darlunwyr yn gwella'r hyn y mae athrawon yn ei wybod am y farchnad llyfrau plant bresennol, gan eu galluogi i gefnogi eu disgyblion gyda llyfrau sy'n sbarduno cariad at ddarllen. Gall plant ddarganfod crewyr o amrywiaeth o gefndiroedd, gan roi cyfle iddynt weld eu hunain, eu ffrindiau a'r gymdeithas ehangach yn cael eu hadlewyrchu. Mae athrawon yn dweud wrthym fod hyn yn ysbrydoli plant i ddarllen mwy, ysgrifennu mwy a chymryd rhan mewn sgyrsiau am lyfrau.

Yng Ngogledd Iwerddon, mae ein hymweliadau gan awduron yn dod â llyfrau'n fyw ac yn dyfnhau cysylltiad plant â darllen.

Gyda'i gilydd, mae'r rhaglenni hyn yn helpu ysgolion i greu amgylcheddau lle mae darllen yn weladwy, yn cael ei werthfawrogi ac yn hygyrch – gan gefnogi plant, yn enwedig y rhai sydd ei angen fwyaf, i feithrin arferion darllen parhaol a fydd yn aros gyda nhw trwy gydol eu bywydau.

Stori Alison

Mae'r athrawes Alison King yn Arweinydd Addysg Bersonol a Chymdeithasol mewn ysgol uwchradd yng Nghaerdydd, lle mae disgyblion Blwyddyn 7 ac 8 yn cymryd rhan yn Bookbuzz Secondary.

Dywed Alison: "Roedd gennym ni fyfyriwr Blwyddyn 8 doedd e' ddim eisiau unrhyw beth i'w wneud â llyfrau. Doedd e' ddim eisiau bod yn y llyfrgell. Trwy sgwrs anffurfiol, fe ddywedodd e' fod e'n teimlo nad oedd e'n gallu gweld ei hun mewn llyfrau. Doedd ei gefndir diwylliannol ddim yn cael ei adlewyrchu yn y llyfrau a oedd wedi cael eu rhoi o'i flaen e'n flaenorol. Doedd e ddim yn teimlo ei fod yn gallu uniaethu, felly pam trafferthu?"

"Yna fe gafodd e' gipolwg dda ar lyfrau Bookbuzz Secondary a oedd wedi'u gosod ar y bwrdd. Roeddwn i'n gallu gweld bod ganddo ddiddordeb yn un o'r llyfrau – roedd e'n cadw dod yn ôl ato. Dros yr ychydig wythnosau nesaf, fe wnaeth e' alw heibio'r llyfrgell yn dawel bach i weld a oedd llyfrau Bookbuzz Secondary wedi cyrraedd. Ar ôl i'r llyfrau gael eu rhoi allan, fe siarades i â'r myfyriwr yma am y cymeriadau a'r darnau oedd yn ddoniol iddo fe.

Fe welodd e' gopi o lyfr gan yr un awdur ar fy desg, ac fe ofynnodd am gael benthyg hwnnw nesaf.

O'r fan honno, fe ddechreuodd ofyn cwestiynau am awduron eraill, ac fe wnaethon ni siarad am awdur arall y byddai, o bosibl, yn ei fwynhau. Yna fe ofynnodd am gael benthyg rhai nofelau penillion a nofelau graffig. Yr hyn rydyn ni wedi'i ddysgu yw bod ganddo ddiddordeb mawr mewn llyfrau – roedd jyst angen iddo deimlo eu bod nhw ar ei gyfer e'.

Ffocws Bookbuzz Secondary i ni yw rhoi'r cyfle i fyfyrwyr ddewis llyfr y byddan nhw'n ei fwynhau, ac i gael eu cefnogi yn y broses honno. Mae'n wych gallu rhoi'r cyfle hwnnw iddyn nhw drafod y llyfrau, gwneud penderfyniadau gwybodus am yr hyn maen nhw'n dewis ei ddarllen, ac yna gweld pa mor bell maen nhw wedi dod."



Creu proffil a chyffro o amgylch darllen a BookTrust around reading and BookTrust

Yn 2025/26, gwnaethom osod **ffocws cryf ar hyrwyddo pŵer darllen ar y cyd** trwy ein gwaith cyfathrebu, ymgysylltu a materion cyhoeddus.



Pan ddechreuodd Frank Cottrell-Boyce yn ei swydd fel Bardd Plant Waterstones, roedd ganddo weledigaeth syml: y dylai darllen fod yn rhan o fagwraeth pob plentyn. Y dylai cael rhywun yn darllen i chi o'ch genedigaeth fod yn rhan gyffredin o blentyndod, nid yn fraint anweledig.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae ein hymgyrch Hawliau Darllen, dan arweiniad Frank, wedi helpu i sicrhau bod darllen ar y cyd yn cael ei drafod mewn sgyrsiau newydd ar draws polisi blynyddoedd cynnar, iechyd, addysg, diwylliant, a llywodraeth leol. Mae pobl yn dechrau uno o amgylch syniad syml, pwerus: bod darllen yn greiddiol i fywyd cynnar plentyn, am ei fod yn creu'r sylfaen ar gyfer lles, cysylltiad a hapusrwydd.

Mae'r syniad o Hawliau Darllen yn ffynnu, gan ysbrydoli arferion yn yr ystafell ddosbarth a strategaethau llyfrgelloedd lleol. Rydym wedi dechrau symud systemau, dylanwadu ar ganllawiau cenedlaethol, annog ymchwiliadau, a sbarduno trafodaethau.

Ym mis Mai 2025, lansiwyd adroddiad Hawliau Darllen a nododd weledigaeth uchelgeisiol Frank a BookTrust i ymwreiddio darllen ym mywydau pob plentyn ifanc.

Cyflwynodd yr adroddiad ein gweledigaeth o Ddinas Straeon: lle mae darllen ac adrodd straeon yn rhan o fywyd bob dydd i bob teulu, wedi'u hategu gan ddull cydgysylltiedig ar draws y gymuned. Arweiniodd hyn at sefydlu tri chynllun peilot seiliedig ar le yn Barnsley, Knowsley a Birmingham a aeth ati i brofi ffyrdd o ddod â phartneriaid at ei gilydd, ymwreiddio darllen ar y cyd ar draws cymunedau a sicrhau nad oes unrhyw blentyn yn cael ei adael ar ôl.

> **Rydw i wedi gweld yr effaith mae'n ei chael ar deuluoedd. Pan fyddwch chi'n chwalu'r rhwystrau hynny i rannu llyfrau sy'n pontio cenedlaethau, mae'r manteision yn ddiddiwedd."**
>
> Majella Maguire, Rheolwr Lleol Hybiau Cymorth Cynnar a Theuluoedd, Cyngor Sefton

Yn ystod yr ail Uwchgynhadledd Hawliau Darllen, a gynhaliwyd yn Abaty Westminster ym mis Mawrth 2026, cafodd Frank gyfle i gwrdd â'r Gweinidog Addysg Gynnar ochr yn ochr â gwesteion gan gynnwys awduron, arweinwyr blynyddoedd cynnar a gwneuthurwyr penderfyniadau lleol, i drafod y newid sydd ei angen i systemau i sicrhau bod pob plentyn yn tyfu i fyny gyda llyfrau a straeon.

Gorffennodd Frank ei gyfnod fel Bardd Plant Waterstones gyda darlith, *The Kids Are Not Alright*, ym mis Mai 2026. Ochr yn ochr â'n gweithgarwch Hawliau Darllen, roeddem yn falch o nodi canmlwyddiant BookTrust ym mis Hydref 2025 gyda derbyniad a gynhaliwyd gan ein Noddwr, Ei Mawrhydi y Frenhines, yn Clarence House. Daeth y digwyddiad â phartneriaid o'r maes cyhoeddi, ein rhwydwaith cyflawni, awduron, darlunwyr a llunwyr polisi ynghyd. Roedd hefyd yn gyfle i lansio llyfr pwrpasol newydd Dechrau Da Babi, Pedwar Bwni Hapus / *Four Happy Bunnies* and Guto Gwningen yn ymuno â'r dathliadau.

Mae 2026 wedi cael ei nodi'n Flwyddyn Genedlaethol Darllen ac mae gan BookTrust rôl allweddol i'w chwarae fel arweinydd gweithgarwch blynyddoedd cynnar, gan ddefnyddio rhaglenni darllen llwyddiannus sy'n bodoli eisoes, mewnwelediadau gan arbenigwyr, a'n rhwydwaith cenedlaethol o bartneriaid cyflawni a chyhoeddi.

Cynyddodd ein gweithgarwch polisi a materion cyhoeddus yn gyflym yn ystod 2025/26, gan sicrhau bod darllen ar y cyd ym mlynyddoedd cynharaf bywyd plentyn yn parhau i fod ar yr agenda ar y lefel uchaf o lywodraeth genedlaethol a lleol a chyda phartneriaid strategol allweddol. Er mwyn cyflawni hyn, rydym wedi cyfrannu at sawl ymgynghoriad ac ymchwiliad, yn fwyaf arbennig yr ymchwiliad Reading for Pleasure a gynhaliwyd gan y Pwyllgor Dethol Addysg lle rhoddodd ein cyd-Brif Swyddog Gweithredol a Frank Cottrell-Boyce dystiolaeth i lunio argymhellion ar gyfer y dyfodol.

Trwy ein cyfathrebiadau, ein nod yw sicrhau bod BookTrust yn cael ei gydnabod yn eang fel y brif elusen ddarllen i blant yn y DU y mae teuluoedd, gweithwyr proffesiynol, partneriaid a rhanddeiliaid yn ymddiried ynddi – fel bod pob plentyn yn gallu profi manteision darllen sy'n gallu newid bywydau. Eleni, aethom ati i ddatblygu ein dull cyfathrebu strategol er mwyn sicrhau ei fod yn gyson â'r uchelgeisiau yn ein strategaeth, a symleiddio ein gweithgarwch er mwyn cael yr effaith fwyaf bosibl. Fel rhan o'r dull newydd hwn, dechreuwyd ar y gwaith o archwilio sianeli a diweddaru'r brand er mwyn ailddiffinio'r ffordd rydym yn siarad ag ystod o gynulleidfaoedd amrywiol BookTrust am ein diben a'r effaith rydym yn ei chael.

"Rwy'n annog pawb i ymuno â'n mudiad i sicrhau bod pob plentyn yn cael mynediad dyddiol at lyfrau a chyfle i ddarllen ar y cyd yn y saith mlynedd gyntaf o'i fywyd. Mae mor bwysig i'w hapusrwydd, iechyd meddwl, empathi a chyfleoedd yn y dyfodol."

Frank Cottrell-Boyce, Bardd Plant Waterstones 2024–26





Ein dull o ymdrin â thystiolaeth a dylunio

Rydym yn defnyddio tystiolaeth a dylunio sy'n canolbwyntio ar bobl i sicrhau bod popeth a wnawn yn arwain at ganlyniadau ystyrlon i blant a theuluoedd, yn unol â'n **Theori Newid.**

Yn 2025/26 gwnaethom y canlynol:

- Mireinio'r cymorth rydym yn ei roi i deuluoedd carennydd yn seiliedig ar yr hyn rydym wedi'i ddysgu gan deuluoedd ac ymarferwyr
- Datblygu'r model ar gyfer Bookbuzz Primary yn seiliedig ar ymchwil, gan gymhwyso dull theori newid i'n dyluniad
- Cwmpasu a lansio gwaith dylunio newydd i wella profiad ein partneriaid cyflawni
- Lansio ein Harolwg Teuluoedd Cenedlaethol, gan olrhain cyd-destunau, agweddau ac ymddygiadau darllen blynyddoedd cynnar, a pharhau â'n harolwg blynyddol o'n partneriaid blynyddoedd cynnar i ddysgu am eu heriau a'u profiadau
- Parhau â'n gwaith gyda Pharthau Dysgu yn Blackpool, Brent, Leeds, Caerlŷr, Hartlepool, Sandwell a Gwlad yr Haf, a phartneru â Knowsley, Barnsley a Birmingham i ddangos – trwy ein hymgyrch Hawliau Darllen – yr effaith y mae cydweithio dwfn yn seiliedig ar le yn ei chael
- Gweithio gyda phartneriaid academaidd i sicrhau bod ein rhaglenni a'n dulliau yn cael eu llywio gan dystiolaeth gyfoes o ansawdd uchel

Ein hincwm

Mae cynhyrchu incwm yn hanfodol er mwyn i BookTrust gyflawni ei hamcanion elusennol a gwneud gwahaniaeth ystyrlon i filiynau o deuluoedd.

Felly, mae adeiladu llif amrywiol o ffrydiau refeniw yn flaenoriaeth. Mae'r amgylchedd cyllido yn fwyfwy cyfyngedig, gyda gostyngiadau mewn rhoddion unigol a thoriadau i gyllid statudol; ledled y DU, mae elusennau dan bwysau oherwydd cynnydd yn y galw, cyllid cyhoeddus tynnach ac ymddygiad esblygol ymhlith cyllidwyr, sy'n golygu bod arallgyfeirio incwm yn hanfodol. Er gwaethaf yr amgylchedd heriol, rhagorodd BookTrust ar ei thargedau incwm yn 2025/26, gyda thwf parhaus mewn rhoddwyr unigol a pherfformiad cryf yn ein rhaglen rhoddion gwerth uchel yn helpu i gydbwyso amgylchedd gwerthu heriol.



Ein sefydliad

Mae sicrhau bod gennym weithlu sy'n ein galluogi i gyflawni ein strategaeth uchelgeisiol a gwneud BookTrust yn lle da i weithio wedi bod yn ffocws eleni. Mae ein timau wedi'u gwasgaru ledled y DU, gyda swyddfeydd yn Leeds, Llundain, Belfast a Chaerdydd.

Ar ddechrau'r flwyddyn, aethom ati i ddiweddaru ein gwerthoedd sefydliadol mewn cydweithrediad â staff ar draws y sefydliad. Mae ein gwerthoedd newydd – Cysylltiedig, Llawen, Cyfrifol a Ffocws ar y Dyfodol – yn llywio'r ffordd rydym yn gweithredu yn BookTrust a'r ffordd rydym yn gweithio gyda chydweithwyr, partneriaid a'r byd ehangach.

Rydym yn parhau i gynnal sesiynau rheolaidd i'r holl staff ar-lein ac wyneb yn wyneb, gan ddod â'r sefydliad cyfan at ei gilydd i gysylltu, clywed gan ein partneriaid a chydweithwyr am brosiectau ac ymchwil newydd, a meithrin perthnasoedd ar draws BookTrust. Rydym wedi parhau i ymwreiddio gwaith traws-sefydliadol dros y flwyddyn ddiwethaf fel bod llawer o aelodau o staff yn cymryd rhan mewn timau traws-sefydliadol nawr, yn ogystal â chadw mewn cysylltiad â'u timau swyddogaethol.

Rydym wedi cynnig ystod eang o gyfleoedd dysgu a datblygu i'n staff, gan gynnwys cymorth hyfforddi unigol, hyfforddiant ffurfiol a gynhelir gan ddarparwyr allanol, a sesiynau cyfoethogi a ddarperir fel rhan o gyfarfodydd tîm neu gyfarwyddiaeth a diwrnodau cwrdd i ffwrdd. Er mwyn cefnogi staff i weithio'n effeithlon a gwneud y gorau o'r dechnoleg sydd ar gael iddynt, cafodd offeryn AI Microsoft Copilot ei gyflwyno i'r holl staff eleni, ochr yn ochr â help i'w ddefnyddio.

Sefydlwyd proses newydd o osod amcanion a gwerthuso hefyd.



Cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant

Rydym wedi ymwreiddio ffyrdd cynhwysol o weithio yn ein dull gweithredu yn BookTrust. Mae darllen yn dod â chymunedau ynghyd o amgylch straeon a rennir ac yn ein helpu i ddeall safbwyntiau pobl eraill.

Mae proffil ein cynulleidfa darged o deuluoedd sy'n byw mewn tlodi yn amrywio o un rhan o'r DU i'r llall, ac eleni rydym wedi parhau i gyd-greu ein rhaglenni gyda'r grwpiau amrywiol o blant a theuluoedd rydym yn eu cefnogi ac i weithio gydag ystod eang o bartneriaid o gefndiroedd amrywiol. Gwnaethom fuddsoddi mewn archwilio ffyrdd newydd o weithio yn seiliedig ar le, sy'n ein helpu i ymateb i gymysgedd demograffig a chyfansoddiad cymunedau trwy gyd-greu llwybrau ac atebion cyflawni gyda'r partneriaid sy'n gwybod beth fydd yn gweithio yn eu hardal. Cynyddwyd cyfran ein rhaglenni Dechrau Da i Blant Bach a Dechrau Da Oed Cyn Ysgol/Meithrin sy'n cyrraedd teuluoedd incwm isel i 77%.

A gwnaethom barhau i ddewis ystod eang o lyfrau amrywiol a chynhwysol ar gyfer ein rhaglenni, yn ogystal â chefnogi crëwyr o liw trwy BookTrust Represents.

Fel y nodwyd yn gynharach, mae ein rhaglen BookTrust Represents wedi cyrraedd dros 60,000 o blant trwy lyfrau a digwyddiadau awduron mewn ysgolion, ac mae'n helpu plant i ddod ar draws straeon sy'n adlewyrchu eu bywydau eu hunain a'r byd ehangach o'u cwmpas.

Rydym yn gwybod bod cael llyfrau perthnasol â chynrychiolaeth amrywiol yn ennyn diddordeb y plant a'r teuluoedd rydym yn eu gwasanaethu – am y rheswm hwn, rydym hefyd wedi datblygu'r ffordd rydym yn dewis y llyfrau sy'n cefnogi plant sydd mewn cysylltiad â'r system gofal cymdeithasol orau.

Mae cyflawni'r gwaith hwn yn dda yn dibynnu ar yr ystod o safbwyntiau yn ein sefydliad ein hunain ac ar draws ein partneriaethau. Rydym yn parhau i ganolbwyntio ar ddenu a chadw staff amrywiol, ac ar weithio gydag ystod eang o bartneriaid i sicrhau bod y gwaith rydym yn ei wneud yn cael ei lywio gan brofiad bywyd yn ogystal â thystiolaeth.



Cynaliadwyedd amgylcheddol

Mae BookTrust yn ystyriol o'r effaith y mae'n ei chael ar yr amgylchedd. Eleni, rydym wedi gweithio gyda'n partner logisteg trydydd parti, Miniclipper, i ddod o hyd i ffyrdd o leihau gwastraff, ailgylchu, ail-labelu neu ailddefnyddio, gan ystyried cynaliadwyedd amgylcheddol yn ogystal â chost-effeithiolrwydd a dichonoldeb gweithredol.

Rydym wedi symud i nodiadau anfon digidol lle y bo'n bosibl yn ogystal â chyfuno cartonau.

Rydym hefyd wedi parhau i hyrwyddo dealltwriaeth o'r amgylchedd a bioamrywiaeth ymhlith plant trwy nodi llyfrau priodol a llunio rhestrau llyfrau cysylltiedig i roi arweiniad i deuluoedd ac athrawon. Trwy brosiect RENEW, a ariennir gan Gyngor Ymchwil Natural England, rydym yn anelu at hwyluso llyfrau ac adnoddau addysgol wedi'u hysbrydoli gan fioamrywiaeth i blant, a dod â gwyddonwyr, awduron, addysgwyr a chyhoeddwyr ynghyd i ysbrydoli cynnwys newydd ar gyfer y dyfodol. Mae'r syniadau am straeon eleni, a ddatblygwyd gan awduron a darlunwyr a fu'n rhan o'n partneriaeth ac sydd wedi cael eu hysbrydoli ganddi, wrthi'n cael eu cynhyrchu i'w cyhoeddi.



Ein dyfodol

Wrth i ni ddod at ddiwedd y flwyddyn gyntaf o gyflawni ein strategaeth newydd, rydym yn falch o'n cyflawniadau ac yn uchelgeisiol am yr effaith barhaus y gallwn ni ei chael.

Mae ein blaenoriaethau ar gyfer 2026/27 yn cynnwys:

Nod effaith 1

Mae plant o gefndiroedd teuluol agored i niwed yn adeiladu sylfeini cadarn ar gyfer bywyd trwy ddarllen

Ein blaenoriaeth yn y flwyddyn i ddod yw cynyddu ein momentwm wrth gyflawni gwaith ar gyfer plant sy'n cael gofal gan berthnasau, gofal maeth neu blant sydd wedi'u mabwysiadu, gyda ffocws ar ehangu cymorth darllen ar y cyd i blant 1–4 oed a meithrin gallu a pherthnasoedd ar gyfer twf yn y blynyddoedd i ddod.

Er mwyn parhau i godi proffil y rôl bwysig y gall darllen ei chwarae yn eu bywydau, byddwn yn ceisio cynyddu ein hymgysylltiad â phartneriaid ac eiriolwyr arbenigol sy'n gweithio gyda phlant sydd mewn cysylltiad â'r system gofal cymdeithasol neu sydd â phrofiad bywyd o'r system honno.

Byddwn yn parhau i gyrraedd dros 10,000 o blant o gefndiroedd teuluol agored i niwed bob blwyddyn, ac i gynyddu'r effaith y mae ein rhaglenni Clwb Blwch Llythyrau a Story Explorers yn ei chael. Byddwn yn parhau i wrando a dysgu am sut y gallwn ddiwallu anghenion plant a'u teuluoedd a'u gofalwyr hyd yn oed yn well, a chymhwyso'r hyn rydym wedi'i ddysgu i wella ein rhaglenni. Byddwn yn gweithio gydag ymarferwyr a phartneriaid i roi'r offer sydd eu hangen arnynt i barhau i gyflwyno'r rhaglenni hyn yn dda, ac yn parhau i gefnogi plant i ddatblygu eu hymdeimlad o berthyn ac meithrin cysylltiadau â'r rhai sy'n gofalu amdanynt.



Nod effaith 2

Mae darllen ar y cyd yn rhan o fywyd teuluoedd blynyddoedd cynnar sydd ar incwm isel

Yn y flwyddyn nesaf, un o'n blaenoriaethau ar gyfer nod effaith 2 yw cefnogi teuluoedd blynyddoedd cynnar sydd ar incwm isel yn fwy effeithiol trwy ddatblygu a mireinio'r llwybrau y mae ein partneriaid yn eu defnyddio i gyflwyno Dechrau Da, gan archwilio ffyrdd sy'n ymateb i gyd-destunau lleol. Ochr yn ochr â hyn, byddwn yn gwella'r ffyrdd rydym yn helpu partneriaid i ddangos i deuluoedd sut i ddarllen yn uchel a rhannu straeon – yn enwedig trwy fodelu adrodd straeon, yn unigol ac mewn grwpiau.

Byddwn yn parhau i gyrraedd teuluoedd blynyddoedd cynnar ym mhob cornel o Gymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon – y flwyddyn nesaf, ein nod yw cyrraedd dros 1.1 miliwn o blant 0–5 oed. Er mwyn cyrraedd y teuluoedd hyn – yn enwedig y rhai sydd ar incwm isel – byddwn yn parhau i wella'r ffordd rydym yn gweithio gyda'n partneriaid blynyddoedd cynnar ac yn archwilio sut y gallant deilwra eu dull gweithredu i ddiwallu anghenion y cymunedau y maent yn gweithio gyda nhw orau.

Byddwn yn parhau i ddarparu ein rhaglenni blynyddoedd cynnar llwyddiannus. Ein nod yw cyrraedd 90% o fabanod gyda Dechrau Da Babi, sydd wedi ymwreiddio darllen ym mywydau cenedlaethau o blant yn eu blynyddoedd cynharaf erbyn hyn. Byddwn yn parhau i ddarparu Dechrau Da i Blant Bach a Dechrau Da Oed Cyn Ysgol/Meithrin i blant 1–4 oed, a bydd llyfrau newydd sydd wedi'u dewis gan ein tîm arbenigol yn dechrau cyrraedd teuluoedd yn yr hydref.

Bydd Amser Stori Dechrau Da – ein rhaglen a gyflwynir mewn llyfrgelloedd – yn cynnwys partneriaeth gyffrous gyda Gruffalo Granny yn yr hydref. Byddwn yn parhau i gynnig llyfrau dwyiaith i deuluoedd y mae'r Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt, a byddwn yn parhau i ddarparu llyfrau arbenigol i blant sydd ag anghenion addysgol arbennig neu anableddau.

Er mwyn helpu partneriaid i gyflwyno ein rhaglenni mor effeithiol â phosibl, byddwn yn cryfhau eu dealltwriaeth o'r dulliau sy'n gwneud darllen ar y cyd yn llwyddiannus gyda phlant blynyddoedd cynnar, gan gynnwys sut mae ymarferwyr yn modelu'r llawenydd y mae darllen ar y cyd yn ei roi i rieni a gofalwyr. Fel rhan o hyn, byddwn yn adolygu'r hyfforddiant a'r cymorth rydym yn eu rhoi, sut rydym yn cyfathrebu â phartneriaid, a sut maent yn cael cymorth gennym.



Nod effaith 3

Mae darllen yn rhan arferol o fywyd bob dydd pob plentyn, gyda ffocws ar y rhai sydd angen cymorth fwyaf

Ein blaenoriaeth ar gyfer nod effaith 3 yw lansio a thyfu ein rhaglen newydd sbon Bookbuzz Primary fel rhan gydlynol o'n cynnig ehangach ar gyfer ysgolion cynradd, gan eu helpu i greu diwylliant o ddarllen ar draws eu cymunedau ysgol.

Bydd y garfan gyntaf o ysgolion yn dechrau cyflwyno Bookbuzz Primary i'w disgyblion o fis Medi 2026, a byddwn yn parhau i'w mireinio wrth i ni wrando a dysgu sut i'w gwneud hyd yn oed yn well i ysgolion a phlant. Byddwn yn parhau i ddarparu cynnwys ac adnoddau arbenigol i gefnogi athrawon ac oedolion eraill i ennyn diddordeb plant a theuluoedd mewn darllen, gan gynnwys gyda'n hadolygiadau llyfrau, rhestrau llyfrau a'r Canllaw Llyfrau Gwych – y bydd yr olaf yn cael ei rannu gyda phob ysgol gynradd.

Byddwn yn parhau i gynnal ymweliadau rhithwir gan awduron fel rhan o BookTrust Represents, fel bod plant 8–12 oed ledled y wlad yn cael eu cyflwyno i waith ysbrydoledig gan bobl greadigol o liw. Byddwn yn cynnal chwe ymweliad rhithwir gydag awduron a darlunwyr yn ystod y flwyddyn academaidd.

Yn y flwyddyn i ddod, byddwn hefyd yn parhau i gyflwyno ein rhaglenni ysgol uwchradd poblogaidd ac effeithiol, Bookbuzz Secondary a Bookspark, gan gefnogi plant i ddatblygu sgiliau darllen er pleser a dewis llyfrau.





Materion allanol

Daeth cyfnod Frank Cottrell-Boyce fel 13eg Bardd Plant Waterstones i ben ym mis Gorffennaf 2026. Caiff ei olynu gan Patrice Lawrence, 14eg Bardd Plant Waterstones, a fydd yn canolbwyntio ar ddarllen i gefnogi'r plant mwyaf agored i niwed a'r ffyrdd y gall straeon gysylltu cymunedau.

Bydd Frank yn parhau i weithio gyda BookTrust fel Llysgennad Hawliau Darllen, gan adeiladu ar y momentwm y mae wedi'i greu a helpu i gadw darllen ar y cyd yn y blynyddoedd cynnar ar yr agenda trwy'r wasg, gweminarau, sesiynau briffio ymchwil, partneriaethau lleol a digwyddiadau wyneb yn wyneb.

Mae ein gwaith gyda Patrice Lawrence, Frank Cottrell-Boyce, ac eiriolwyr a phartneriaid eraill yn parhau i fod yn ffordd bwysig o barhau i hyrwyddo'r rôl y gall darllen ei chwarae wrth helpu plant i ffynnu, wrth adeiladu cefnogaeth i'n cenhadaeth.

Ochr yn ochr â hyn, byddwn yn parhau i sicrhau bod BookTrust mewn sefyllfa dda i gyflawni ein strategaeth trwy gryfhau ein sefyllfa o ddylanwad, gweithredu ein dull cyfathrebu strategol newydd, mireinio ein gweithgarwch marchnata a thyfu llif incwm hirdymor y sefydliad.

Ein cyllidwyr a'n cefnogwyr

Hoffwn **ddiolch** yn fawr i'r miloedd lawer o bartneriaid BookTrust sy'n gweithio gyda ni, ac yn benodol i:

- **Ein Noddwr, Ei Mawrhydi y Frenhines,** am ei nawdd a'i chefnogaeth barhaus i ddarllen, yn enwedig ym mlwyddyn ein canmlwyddiant, a'n Llywydd, Syr Michael Morpurgo, am ei gefnogaeth a'i ysbrydoliaeth hirsefydlog.
- **Ein rhwydwaith o gydlynwyr Dechrau Da, awdurdodau lleol, ymarferwyr a phartneriaid cymunedol,** sy'n gweithredu ym mhob cymuned yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. I'r rhai sy'n cefnogi teuluoedd mewn llyfrgelloedd, sefydliadau cymunedol a lleoliadau blynyddoedd cynnar, i ymwelwyr iechyd, ac i bartneriaid awdurdodau lleol ac ysgolion: diolch am fod yn rhan hanfodol o'r hyn rydym yn ei wneud.
- **Ein partneriaid ym maes cyhoeddi, awduron a darlunwyr,** sy'n ganolog i'r gwaith rydym yn ei wneud i ysbrydoli plant a theuluoedd ar eu teithiau darllen. Rydym yn ddiolchgar am y gefnogaeth hael rydym yn ei chael gan y rhai sy'n rhannu ein cenhadaeth i gael plant a theuluoedd i ddarllen er pleser:
- Cyngor Celfyddydau Lloegr
- Cyngor Celfyddydau Gogledd Iwerddon
- Llywodraeth Cymru
- Adran Addysg Gogledd Iwerddon



Mae yna lawer o unigolion, cwmnïau, ymddiriedolaethau a sefydliadau sydd wedi cefnogi ein gwaith yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Am eu cefnogaeth hirsefydlog a hael, hoffem ddiolch yn arbennig i Sefydliad Mohn Westlake ac i Waterstones. Hoffem achub ar y cyfle hwn i gydnabod ac i ddiolch i'r canlynol:

- Bloomsbury Publishing
- Bookshop.org
- Browns Books
- Sefydliad Build-A-Bear
- Elusen Clara E Burgess
- Domlal Foundation Limited
- Emerald Publishing Limited
- Enterprise Mobility
- Fundacja Powszechnego Czytania
- Ymddiriedolaeth G M C
- Ymddiriedolaeth Elusennol Gapper
- Ymddiriedolaeth George Cadbury
- Elusen Ystad Hyde Park Place
- Industria Studios
- Sefydliad Teulu Langley
- Sefydliad yr Arglwydd Barnby
- Mercury
- Ymddiriedolaeth Mintaka
- Ymddiriedolaeth Elusennol Mrs M A Lascelles
- Mushens Entertainment
- Pan Macmillan
- Promote Your School
- ShareGift
- Ymddiriedolaeth Plwyfi'r Strand
- Ymddiriedolaeth Ancaster
- Ymddiriedolaeth The Band
- Ymddiriedolaeth Beatrice Laing
- Sefydliad Bhim Ruia
- Ymddiriedolaeth Elusennol Catherine Cookson
- Sefydliad Elizabeth Frankland Moore a Star
- Sefydliad Eranda Rothschild
- Ymddiriedolaeth Eveson
- Ymddiriedolaeth Elusennol Gennets
- Ymddiriedolaeth Headley
- Ymddiriedolaeth James Tysoe
- Sefydliad Coffa Jonathan Towler
- Ymddiriedolaeth Julia Rausing
- Ymddiriedolaeth Elusennol The Master
- Sefydliad Miles
- Sefydliad Mohn Westlake
- Ymddiriedolaeth Moonglade
- Sefydliad Peter Harrington
- Ymddiriedolaeth Elusennol Pitt-Rivers
- Ymddiriedolaeth Elusennol Richard Budenberg
- Ymddiriedolaeth Elusennol Roger Raymond
- Ymddiriedolaeth Rothley
- Elusen Syr Ralph Pendlebury 1880 ar gyfer Trigolion Mwyaf Anghenus Stockport
- Ymddiriedolaeth Elusennol Teulu Stuchfield
- The Tanlaw Foundation
- Sefydliad Coffa Wyn a Ken Lo
- Unimed Procurement Services Limited
- Vision Architectural Glazing Installations Ltd
- Waterstones
- Abaty Westminster

A phob un sy'n dymuno aros yn ddienw. anonymous.

Polisi codi arian

Mae BookTrust yn codi arian trwy ystod o sianeli ac mae'n ymrwymedig i weithgarwch codi arian sy'n agored, yn barchus ac yn canolbwyntio ar gefnogwyr.



Rydym yn gwerthfawrogi pob cefnogwr ac yn anelu at ddarparu safonau gofal rhagorol yn ein holl weithgareddau cyfathrebu a chodi arian.

Rydym yn gwrando ar adborth ac yn ei ddefnyddio i wella ein hymgyrchoedd a phrofiad cefnogwyr. Rydym yn parchu dewisiadau preifatrwydd a chyfathrebu ein cefnogwyr ac yn trin data personol yn gyfrifol ac yn unol â chyfraith diogelu data'r DU. Gellir gweld ein polisi preifatrwydd, sy'n esbonio sut a pham rydym yn prosesu gwybodaeth bersonol, ar ein gwefan.

Rydym yn ymrwymedig i amddiffyn pob unigolyn, yn enwedig pobl mewn amgylchiadau bregus. Ni fyddwn byth yn rhoi pwysau gormodol ar unrhyw un i roi nac i dderbyn yn fwriadol roddion gan bobl nad ydynt efallai yn gallu gwneud penderfyniadau gwybodus.

Mae BookTrust wedi'i chofrestru gyda'r Rheoleiddiwr Codi Arian ac mae'n dilyn y Cod Ymarfer Codi Arian a'r Addewid Codi Arian, gan ddangos ein hymrwymiad i weithgarwch codi arian sy'n gyfreithlon, yn onest ac yn dryloyw. Rydym yn cymryd unrhyw gwynion o ddifrif, yn ymchwilio iddynt yn llawn, ac yn defnyddio unrhyw beth rydym yn ei ddysgu i gryfhau ein harferion codi arian a'r gofal a roddir i gefnogwyr.

Yn ystod blwyddyn ariannol 2025/26, daeth tair cwyn i law a datryswyd pob un ohonynt mewn modd amserol. Mae hyn yn cymharu ag wyth cwyn yn 2024/25.



Adolygiad ariannol

Arweiniodd cyfuniad o weithgarwch cynhyrchu incwm cryf a rheoli costau darbodus at warged gweithredu o £0.5m cyn enillion ar fuddsoddiadau. Cynyddodd cyfanswm yr incwm £0.7m i £13.1m (2025: £12.4m), yn bennaf oherwydd twf mewn incwm codi arian. Cynyddodd gwariant £0.1m i £12.6m (2025: £12.5m), gydag arbedion yn cael eu gwneud o ganlyniad i drosglwyddo i ddarparwr dosbarthu a warysau newydd.

Mae'r gwarged yn cryfhau ein cronfeydd wrth gefn ymhellach wrth i ni gychwyn ar gyfnod o fuddsoddiad wedi'i gynllunio, gan gynnwys cynyddu gallu'r sefydliad i gefnogi'r gwaith o gyflawni ein strategaeth pum mlynedd uchelgeisiol.

Cawsom £5.8m o dan ein contract gyda Chyngor Celfyddydau Lloegr. Roedd hyn yn cynnwys cynnydd chwyddiant o £0.1m.

Ers diwedd y flwyddyn, mae'r contract wedi'i ymestyn i 2027/28, gan roi cymorth parhaus i'r gwaith a wnawn yn Lloegr.

Sicrhawyd £0.7m gan Gyfarwyddiaeth Addysg Llywodraeth Cymru i gefnogi'r gwaith rydym yn ei wneud yng Nghymru (2025: £0.8m). Cawsom £0.07m gan yr Adran Addysg yng Ngogledd Iwerddon hefyd a £0.02m am waith a gyflawnwyd mewn partneriaeth â Kinship o dan ei chontract â'r Adran Addysg yn Lloegr.

Tyfodd incwm o weithgarwch codi arian gwirfoddol yn sylweddol yn ystod y flwyddyn. Cynyddodd incwm o bartneriaethau corfforaethol a rhoddion unigol £0.4m i £2.5m (2025: £2.1m). Cynyddodd incwm o ymddiriedolaethau a sefydliadau £0.5m i £1.6m (2025: £1.1m).


Parhaodd ein rhaglenni a fasnachir, Bookbuzz a'r Clwb Blwch Llythyrau, i wneud cyfraniad pwysig i'n hincwm, gyda'r Clwb Blwch Llythyrau yn cynhyrchu refeniw o £1.4m (2025: £1.4m) a Bookbuzz yn cynhyrchu refeniw o £0.8m (2025: £0.9m).



Cynyddodd cyfanswm yr incwm £0.7m i £13.1m (2025: £12.4m).

2025/26


Cyfanswm incwm o £13.1m



- Cyngor Celfyddydau Lloegr **44.7%**
- Rhaglenni a fasnachir **17.0%**
- Rhoddion unigol **13.6%**
- Ymddiriedolaethau a sefydliadau **12.2%**
- Cymru **5.6%**
- Partneriaethau corfforaethol **5.4%**
- Gogledd Iwerddon **0.8%**
- Arall **0.4%**
- Kinship **0.3%**

2024/25

Cyfanswm incwm o £12.4m




- Cyngor Celfyddydau Lloegr **46.6%**
- Rhaglenni a fasnachir **19.1%**
- Rhoddion unigol **12.8%**
- Ymddiriedolaethau a sefydliadau **9.0%**
- Cymru **6.4%**
- Partneriaethau corfforaethol **4.5%**
- Gogledd Iwerddon **0.6%**
- Kinship **0.5%**
- Arall **0.5%**

Wedi'i ymwreiddio yn ein strategaeth pum mlynedd newydd, a ddechreuodd yn 2025/26, mae ein newid strategol i blant mewn aelwydydd incwm isel ac o gefndiroedd teuluol agored i niwed.

Arweiniodd buddsoddiad pellach yn ein rhaglenni at **gynnydd o £0.1m mewn gwariant i £12.6m** (2025: £12.5m).

2025/26


Cyfanswm gwariant o £12.6m



- Costau staffio **£6,379,000**
- Llyfrau ac adnoddau **£2,967,000**
- Dosbarthu/warysau **£1,295,000**
- Ymchwil, cyhoeddusrwydd ac ymgysylltu **£752,000**
- TG **£463,000**
- Sefydliad a swyddfeydd **£427,000**
- Ffioedd proffesiynol **£211,000**
- Teithio a chynhaliaeth **£126,000**

2024/25

Cyfanswm gwariant o £12.5m



- Costau staffio **£5,651,000**
- Llyfrau ac adnoddau **£3,117,000**
- Dosbarthu/warysau **£1,635,000**
- Ymchwil, cyhoeddusrwydd ac ymgysylltu **£902,000**
- TG **£362,000**
- Sefydliad a swyddfeydd **£572,000**
- Ffioedd proffesiynol **£182,000**
- Teithio a chynhaliaeth **£109,000**

Mae ein gwariant ar draws ein nodau effaith yn dangos ein ffocws parhaus ar gefnogi plant a theuluoedd sy'n wynebu'r rhwystrau mwyaf i ddarllen. Parhaodd y dyraniad blwyddyn ar ôl blwyddyn yn gyson ar y cyfan, ochr yn ochr â buddsoddiad wedi'i dargedu mewn capasiti codi arian, technoleg a seilwaith sefydliadol i gefnogi twf incwm, effeithlonrwydd a gwydnwch yn y dyfodol.


Nod effaith 1 Mae plant o gefndiroedd teuluol agored i niwed yn adeiladu sylfeini cadarn ar gyfer bywyd trwy ddarllen

Nod effaith 2 Mae darllen ar y cyd yn rhan o fywyd teuluoedd blynyddoedd cynnar sydd ar incwm isel

Nod effaith 3 Mae darllen yn rhan arferol o fywyd bob dydd pob plentyn, gyda ffocws ar y rhai sydd angen cymorth fwyaf

2025/26


Cyfanswm gwariant o £12.6m



- Nod effaith 1 **16.9%**
- Nod effaith 2 **46.2%**
- Nod effaith 3 **12.5%**
- Codi arian **7.7%**
- Gorbenion **16.7%**

2024/25

Cyfanswm gwariant o £12.5m



- Nod effaith 1 **17.0%**
- Nod effaith 2 **47.3%**
- Nod effaith 3 **12.0%**
- Codi arian **7.4%**
- Gorbenion **16.3%**

Rhennir cronfeydd BookTrust yn ddau gategori:

Cyfyngedig – Mae cronfeydd cyfyngedig yn gronfeydd y gellir eu defnyddio at ddibenion penodol yn unig o fewn amcanion yr elusen. Bydd cyfyngiadau'n codi pan fydd y rhoddwr yn eu pennu neu pan fydd arian yn cael ei godi at ddibenion cyfyngedig penodol, sy'n cyd-fynd â datblygiad ein hamcanion strategol. Manylir ar ddyraniad cronfeydd cyfyngedig yn ôl amcan strategol yn y nodiadau i'r cyfrifon hyn.

Anghyfyngedig – Mae'r cronfeydd hyn ar gael i'w defnyddio yn ôl disgresiwn y cyfarwyddwyr i hyrwyddo amcanion cyffredinol yr elusen ac nad ydynt wedi'u dynodi at ddibenion eraill.

Polisi cronfeydd wrth gefn – Mae'r polisi hwn yn nodi lefel sylfaenol o gronfeydd anghyfyngedig i alluogi'r elusen i fynd i'r afael â senarios rhagweladwy. Mae'n nodi terfynau ar gyfer rhan hylifol y gronfa hon hefyd i sicrhau bod modd bodloni'r holl rwymedigaethau ariannol cyfredol i bartneriaid, cyflenwyr a staff mewn modd amserol.

Cronfeydd wrth gefn anghyfyngedig – Mae'r ymddiriedolwyr wedi adolygu ein polisi cronfeydd wrth gefn ac, o ystyried y senario gwaethaf o ddirwyn yr elusen i ben yn drefnus, maent wedi cytuno y dylid cadw o leiaf £4.5m mewn cronfeydd wrth gefn. Mae'r balans hwn yn cynnwys £2.2m i fynd i'r afael ag unrhyw rwymedigaethau ariannol sy'n ddyledus mewn senario o'r fath, ac mae'n cael ei ategu gan gronfeydd wrth gefn trosiannol ychwanegol, lle mai'r nod fyddai cynnal £2.3m arall. Byddai hyn yn cyfrif am oddeutu tri mis o wariant i ganiatáu ar gyfer ailgyflunio'r sefydliad yn sefydliad llai â ffocws mwy penodol. Mae hyn yn cydnabod ein hymrwymiadau ar brydlesi, i staff ac i weithgarwch ymrwymedig a fasnachir, ac mae hefyd yn ystyried gofynion cyfalaf gweithio sy'n cael eu hysgogi gan bryniannau ymlaen llaw (fel arfer yn y Dwyrain Pell) i gefnogi cylch cynhyrchu a dosbarthu o chwech i naw mis sy'n ein galluogi i gyflawni ymyriadau cenedlaethol ar raddfa fawr.

Cronfeydd wrth gefn rhydd – Mae'r ymddiriedolwyr yn cydnabod rhwymedigaeth yr elusen i dalu ei staff, cyflenwyr ac eraill yn llawn mewn modd amserol, yn erbyn patrymau tymhorol o lif arian parod. Er mwyn sicrhau bod hyn yn bosibl, mae'r ymddiriedolwyr wedi penderfynu y dylid cynnal lefel sylfaenol o gronfeydd wrth gefn rhydd fel bod modd bodloni'r holl rwymedigaethau cyfredol os bydd oedi byr wrth dderbyn incwm o grantiau ac ati.

Yn seiliedig ar amcanestyniadau presennol o wariant, mae'r lefel hon wedi'i gosod i gynnal sefyllfa cronfa wrth gefn rydd gyfartalog o £1.5m, gan dynnu i lawr o fuddsoddiadau pan fo angen i gynnal y lefel hon.

Mae'r polisïau hyn yn cael eu hadolygu'n flynyddol gan yr ymddiriedolwyr i sicrhau bod cronfeydd wrth gefn yn cael eu dyrannu'n briodol er mwyn cyflawni diben a nodau strategol yr elusen.

Cyfanswm gwerth yr holl gronfeydd ar 31 Mawrth 2026 oedd £6.9m (2025: £6.2m), yr oedd £3.7m (2025: £3.5m) ohono yn cael ei ddal fel buddsoddiadau, £2.7m mewn arian parod (2025: £1.5m), a'r balans o £0.5m (2025: £1.2m) mewn cyfalaf gweithio. O'r £6.9m, roedd £dim (2025: £dim) wedi'i gyfyngu at ddibenion penodol. Mae hyn yn gadael £6.9m (2025: £6.2m) mewn cronfeydd anghyfyngedig, sydd £2.4m (2025: £1.7m) yn uwch na'r gofynion sylfaenol ar gyfer ein cronfeydd wrth gefn. Roedd yna gronfeydd wrth gefn rhydd o £3.0m (2025: £2.6m) a oedd, unwaith eto, yn llawer uwch na'r gofynion sylfaenol ar gyfer cronfeydd wrth gefn rhydd. Mae'r ymddiriedolwyr yn fodlon bod y cynlluniau cymeradwy ar gyfer y tair blynedd nesaf yn sicrhau y bydd cronfeydd uwchlaw'r gofyniad polisi sylfaenol yn cael eu defnyddio'n effeithiol yn erbyn amcanion yr elusen.

Polisi buddsoddi

Gellir rhannu portffolio buddsoddi BookTrust yn ddau brif gategori: cronfeydd a reolir ac arian parod ar adnau. Ein prif amcan yw cynyddu gwerth gwirioneddol ein buddsoddiadau a rheoli'r risg rydym yn ei hwynebu ar yr un pryd. O ran ein cronfeydd a reolir, rydym yn awyddus i fuddsoddi mewn ffordd sy'n darparu lefel uchel o arallgyfeirio, hyblygrwydd a hylifedd (gydag amlygiad cyfyngedig i symudiadau'r farchnad). Mae ein cronfeydd a reolir yn cael eu rheoli gan Lothbury Wealth Management Limited trwy ddwy is-strategaeth: portffolio anwadalrwydd isel a phortffolio twf risg gytbwys. Rydym yn gweithio'n agos gyda Lothbury Wealth Management Limited i fonitro perfformiad yn erbyn meincnodau y cytunwyd arnynt yn y farchnad a'n hamcanion buddsoddi.

Risg a llywodraethu

Risgiau ac ansicrwydd allweddol

Mae ein gweithgarwch rheoli risg yn cael ei adolygu'n rheolaidd ac yn cael ei gefnogi gan drefniadau llywodraethu cryf i sicrhau ein bod yn cydymffurfio â'r fframwaith rheoleiddio rydym yn gweithredu ynddo.

Rydym wedi nodi'r canlynol fel ein risgiau allweddol:

Cyrraedd plant a theuluoedd
Mae risg i'r gwaith o gyflawni strategaeth 2025–2030 os na allwn gyrraedd y plant a'r teuluoedd rydym eisiau eu cyrraedd am nad ydym yn ymgysylltu â phartneriaid ac yn sicrhau eu hymrwymiad i'n diben a'n rhaglenni, ac am nad oes gan y partneriaid hyn yr adnoddau i weithio gyda ni i gyflwyno ein rhaglenni. I liniaru hyn, rydym yn parhau i gynnal a dyfnhau perthnasoedd â phartneriaid ac i ymateb i gyd-destun a blaenoriaethau lleol. Rydym hefyd yn ehangu'r cymorth rydym yn ei roi i ysgolion cynradd gyda darllen, yn parhau i ddatblygu ein cynnyrch i gynyddu cyrhaeddiad, ac yn ymateb i'r hyn rydym yn ei ddysgu gan bartneriaid a chwsmeriaid.

Effaith
Mae risg y bydd yn cymryd mwy o amser i ni ddyfnhau ein heffaith nag yr oeddem wedi gobeithio am fod rhai o'n rhagdybiaethau a'n damcaniaethau yn anghywir, ac am nad yw partneriaid yn ymwreiddio'r mecanweithiau rydym yn gwybod sy'n gweithio orau. I liniaru'r risg hon, mae gennym ddull dysgu cadarn, sy'n cynnwys amcanion dysgu dros gyfnod o bum mlynedd, grŵp goruchwylio dysgu, proses adolygu dysgu a chynllun dysgu blynyddol. Rydym yn asesu'r effaith rydym yn ei chael ac yn addasu yn seiliedig ar yr hyn rydym wedi'i ddysgu. Rydym wrthi'n gwella siwrneiau partneriaid pan fyddant yn gweithio gyda ni.

Cynhyrchu incwm
Mae BookTrust yn derbyn cefnogaeth gan ystod eang o roddwyr ac mae risg y byddwn, yng nghyd-destun amodau economaidd heriol gyda lefelau uchel o chwyddiant a phwysau costau byw, yn ei chael hi'n anodd cyrraedd targedau cynhyrchu incwm. I liniaru hyn, rydym wedi llunio cynllun ariannol pum mlynedd ac yn monitro'r cynllun hwnnw, gan dynnu ar waith sydd wedi'i wneud gan ein tîm cynhyrchu incwm wrth iddynt geisio arallgyfeirio ein ffrydiau incwm. Rydym yn datblygu dulliau ar gyfer y rhaglenni a fasnachir gennym, ac mae'r rhain yn cael eu llywio gan ystod o fentrau, megis datblygu ymyriadau prototeip neu ymchwil i ddeall y blaenoriaethau y gallai fod gan gwsmeriaid. Rydym hefyd yn cadw ein holl raglenni'n ffres ac yn addas i'r diben trwy welliannau parhaus, ac rydym yn dysgu gan ein defnyddwyr i ddeall y cyfleoedd a'r heriau y maent yn eu hwynebu, er mwyn i ni allu aros yn berthnasol iddynt.

Materion allanol
Mae risg na fydd gwaith materion allanol BookTrust yn cyrraedd digon o bobl mewn tirwedd orlawn o sefydliadau ac achosion sy'n cystadlu. Os bydd hyn yn digwydd, gallai olygu bod gennym lai o allu i ymgysylltu â phartneriaid, codi proffil darllen a denu cyllid. I liniaru'r risg hon, rydym yn cryfhau ein dull materion allanol trwy strategaeth gliriach a goruchwyliaeth gydgysylltiedig. Rydym wedi datblygu a chytuno ar strategaeth gyfathrebu newydd, sydd wrthi'n cael ei gweithredu. Caiff cynnydd ei fonitro gan grŵp materion allanol traws-sefydliadol. Rydym yn cynnal perthnasoedd cryf â phartneriaid, gan ein helpu i ddeall eu safbwyntiau ac addasu ein dull lle bo angen.

Datblygu sefydliadol
Mae gennym raglen waith ymestynnol i gyflawni ein huchelgeisiau ac mae risg na fyddwn yn gallu cyflawni hyn. I liniaru hyn, mae gennym gynllun newid a reolir gan y Cyd-Brif Swyddogion Gweithredol, ac mae ein strwythur llywodraethu mewnol datblygedig yn helpu i flaenoriaethu gweithgarwch. Rydym yn parhau i ymwreiddio ein model gweithio hyblyg a dosbarthedig gyda chanolfannau gweithio yn Leeds, Llundain, Belfast a Chaerdydd, sy'n helpu i recriwtio a chadw staff. Rydym yn parhau i fuddsoddi yn y gwaith o ddatblygu'r sefydliad, gan ganolbwyntio ar gryfhau gallu ym maes arweinyddiaeth, gwella prosesau mewnol a sicrhau bod y sefydliad yn addas ar gyfer twf yn y dyfodol.

Amgylchedd allanol sy'n newid yn gyflym
Mae risg na fyddwn yn nodi datblygiadau sy'n dod i'r amlwg yn ddigon cynnar i ymateb yn effeithiol mewn amgychedd allanol sy'n newid yn gyflym. I liniaru'r risg hon, rydym yn sganio ac yn dehongli'r hyn sy'n digwydd yn y cyd-destun rydym yn gweithio ynddo yn rheolaidd. Rydym yn rhannu mewnwelediadau gyda thimau a phrosiectau er mwyn iddynt allu addasu eu cynlluniau yn ôl yr angen. Trwy ein hadolygiadau dysgu, rydym yn cynnal dadansoddiad o'r dirwedd, yn asesu'r goblygiadau ar gyfer ein gwaith ac yn cytuno ar y ffordd y byddwn yn ymateb i bwysau allanol.



Gwybodaeth gyfreithiol a gweinyddol

Enw'r Elusen	BookTrust
Rhif Cofrestru'r Elusen	313343
Rhif Cofrestru'r Cwmni	00210012

Noddwr	Ei Mawrhydi y Frenhines
Llywydd	Syr Michael Morpurgo

Y Bwrdd Ymddiriedolwyr

Ymddiriedolwyr BookTrust (yr elusen) yw ei hymddiriedolwyr at ddibenion cyfraith elusennau a thrwy gydol yr adroddiad hwn cyfeirir atynt gyda'i gilydd fel yr ymddiriedolwyr.

Ellen Broomé	
Steve Crocker OBE	(Penodwyd 1 Mawrth 2026)
John Coughlan CBE	Cadeirydd (Ymddiswyddodd 28 Chwefror 2026)
Radha Chakraborty	Cadeirydd (Penodwyd 1 Mawrth 2026)
Yr Athro Matthew Cripps	
Gautam Dalal	Trysorydd Anrhydeddus
Yr Athro Tim Hobbs	
Nigel Langstaff	
Hilary Murray Hill	
June O'Sullivan MBE	
Edward Poultney	
Victoria Sellick MBE	Is-gadeirydd

Cyd-Brif Weithredwyr	Annie Crombie a Diana Gerald MBE (Penodwyd yn Gyd-Brif Weithredwyr ar 9 Mehefin 2025. Hyd at 8 Mehefin 2025, Diana Gerald oedd y Prif Weithredwr)
Ysgrifennydd y Cwmni	Jennifer Rachael Bailey

Swyddfa Gofrestredig	1 Aire Street, Leeds, England, LS1 4PR

Ein Cynghorwyr

Archwilwyr	O fis Rhagfyr 2025: Saffery Audit (UK) LLP, 10 Wellington Place, Leeds, LS1 4AP Hyd at fis Rhagfyr 2025: Sayer Vincent LLP, Invicta House, 108–114 Golden Lane, London EC1Y 0TL
Banc	NatWest, 111–117 Putney High Street, London SW15 2LL
Cyfreithwyr	Russell-Cooke, 2 Putney Hill, London SW15 6AB
Rheolwyr Buddsoddi	Lothbury Wealth Management Limited, 65 London Wall, London EC2M 5TU

Strwythur, llywodraethu a rheoli

Mae BookTrust yn gwmni preifat cyfyngedig trwy warant heb gyfalaf cyfranddaliadau ac yn gwmni elusennol cyfyngedig trwy warant heb gyfalaf cyfranddaliadau wedi'i chorffori ar 28 Tachwedd 1925 a'i chofrestru fel elusen ar 1 Gorffennaf 1963. Fe'i sefydlwyd o dan Femorandwm Cymdeithasu a sefydlodd ei hamcanion fel cwmni elusennol ac fe'i llywodraethir o dan ei Herthyglau Cymdeithasu. Mae'r bwrdd ymddiriedolwyr yn adolygu'r Erthyglau Cymdeithasu o bryd i'w gilydd a gwnaed hyn ddiwethaf yn 2023. Mae BookTrust yn gweithredu o dan Erthyglau a fabwysiadwyd trwy benderfyniad arbennig ar 9 Hydref 2023.

Llywodraethu a rheoli

O dan delerau'r Erthyglau Cymdeithasu cyfredol, mae'r gwaith o reoli materion BookTrust wedi'i freinio mewn bwrdd o ddim llai na phedwar ymddiriedolwr. Penodir ymddiriedolwyr am gyfnod cychwynnol o hyd at dair blynedd a gallant gael eu hailbenodi am hyd at ddau dymor arall, tair blynedd o hyd. Mae'r bwrdd wedi cytuno, er bod modd gofyn i ymddiriedolwyr wasanaethu am dri thymor weithiau, ei bod hi'n arferol i aelodau bwrdd BookTrust wasanaethu am uchafswm o ddau dymor.

Mae'r bwrdd ymddiriedolwyr yn gweinyddu'r elusen ac yn arfer ei rôl graffu trwy gyfarfodydd bwrdd a gynhelir o leiaf bob chwarter. Mae'r bwrdd yn derbyn adroddiadau manwl gan gynnwys diweddariadau gan y Cyd-Brif Swyddogion Gweithredol, gwybodaeth ariannol a risg, a dangosfwrdd data sy'n cynnwys dadansoddiad o weithgarwch ac effaith yn erbyn dangosyddion perfformiad allweddol sy'n adlewyrchu'r strategaeth, y theori newid a'r nodau effaith yn ogystal â'r cynllun gweithredu a'r gyllideb flynyddol ar gyfer y strategaeth.

Er mwyn sicrhau bod ymddiriedolwyr yn cyflawni eu cyfrifoldebau, mae'r bwrdd wedi sefydlu tri phrif bwyllgor sef: (i) Cyllid, Risg ac Archwilio, (ii) Enwebiadau a (iii) Cydraddoldeb, Amrywiaeth, Cynhwysiant a Chydnabyddiaeth. Mae'r bwrdd hefyd wedi sefydlu Pwyllgor Rhoddion, Derbyn a Gwrthod sy'n cyfarfod yn ôl yr angen. Mae'r bwrdd wedi sefydlu rolau arweiniol i ymddiriedolwyr ar gyfer meysydd allweddol, yn arbennig diogelu, llywodraethu, cynaliadwyedd amgylcheddol a phobl a diwylliant. Mae'r bwrdd yn adolygu ei ddirprwyaethau, gan gynnwys cylch gorchwyl pwyllgorau a dirprwyaethau ariannol, o leiaf bob blwyddyn.

Mae'r broses o recriwtio ymddiriedolwyr yn cael ei llywio gan anghenion y bwrdd a'r sefydliad. Caiff archwiliadau o sgiliau ymddiriedolwyr eu cynnal o bryd i'w gilydd i sicrhau bod gennym y cydbwysedd cywir o sgiliau a phrofiad ac i nodi meysydd i ganolbwyntio arnynt yn y dyfodol wrth recriwtio ymddiriedolwyr. Rydym hefyd yn adolygu cyfansoddiad y bwrdd i sicrhau bod gennym amrywiaeth ddigonol ac yn monitro hyn trwy archwiliadau rheolaidd o gyfansoddiad y bwrdd. Yn ystod y flwyddyn hon, ymgymerwyd â rhywfaint o weithgarwch recriwtio ymddiriedolwyr. Yn dilyn chwiliad recriwtio, gan gynnwys dyrchafu trwy rwydweithiau wedi'u targedu, penodwyd cadeirydd newydd i'r bwrdd ac un ymddiriedolwr arall. Gyda'i gilydd, maent yn dod â sgiliau ac arbenigedd fel y'u nodwyd gan y bwrdd, ac yn cryfhau amrywiaeth aelodau'r bwrdd hefyd. Mae'r bwrdd yn ymgymryd â gwaith cynllunio olyniaeth manwl cyn 2027 pan fydd nifer o'r ymddiriedolwyr ar y bwrdd yn cyrraedd diwedd eu cyfnod yn y swydd.

Mae pob ymddiriedolwr newydd yn cael sesiynau cynefino cynhwysfawr gyda gwybodaeth am eu rôl, y sefydliad a'i gyd-destun gweithredu yn ogystal â chyfarfodydd ag aelodau allweddol o staff.

Mae'r bwrdd yn cynnal un diwrnod cwrdd i ffwrdd i ymddiriedolwyr bob blwyddyn, yn ogystal â sesiynau briffio ar-lein. Mae pob aelod o'r bwrdd yn cael diweddariadau

rheolaidd hefyd ac fe'u hanogir i fynychu digwyddiadau a hyfforddiant.

Cynhelir adolygiad blynyddol o effeithiolrwydd y bwrdd. Yn 2025, cynhaliwyd adolygiad mewnol o effeithiolrwydd y bwrdd gan gadeirydd y bwrdd ac rydym yn disgwyl i broses adolygu debyg gael ei chynnal yn 2026. Tua bob tair blynedd, rydym yn comisiynu adolygiad allanol o drefniadau llywodraethu a chafodd yr adolygiad diweddaraf ei gynnal yn 2023/24.
Yn seiliedig ar yr adolygiadau a'u canfyddiadau, rydym yn parhau i gymryd camau i gryfhau trefniadau llywodraethu BookTrust ac i ddatblygu a chyflawni blaenoriaethau y cytunwyd arnynt. Mae'r ymddiriedolwyr wedi cytuno ar gynllun gweithredu sy'n cynnwys argymhellion a wnaed mewn adolygiadau o effeithiolrwydd y bwrdd ac sy'n cael ei ystyried gan ymddiriedolwyr o leiaf bob blwyddyn. Mae'r cynllun gweithredu hwn wedi'i strwythuro i adlewyrchu disgwyliadau'r Cod Llywodraethu Elusennau ac mae'n cael ei ddiweddaru i adlewyrchu'r diwygiadau a wnaed i'r cod yn 2025.

Yn 2025/26, cytunodd y bwrdd ar newid i'r model arweinyddiaeth ar gyfer BookTrust. Roedd Diana Gerald wedi bod yn ymgymryd â rôl y Prif Weithredwr, ar ôl iddi gael ei phenodi gan yr ymddiriedolwyr i reoli gweithrediadau'r elusen o ddydd i ddydd. Ym mis Mehefin 2025, penododd y bwrdd Annie Crombie a Diana Gerald yn Gyd-Brif Weithredwyr. Er mwyn hwyluso gweithrediadau effeithiol, mae'r Prif Weithredwr/Cyd-Brif Weithredwyr wedi dirprwyo awdurdod ar gyfer materion gweithredol gan gynnwys cyllid, cyflogaeth a gweithgareddau eraill sy'n gysylltiedig â rhaglenni a chyflawni.

Mae'r Tîm Arwain Gweithredol yn cynnwys:

Annie Crombie
Cyd-Brif Swyddog Gweithredol (yn effeithiol o fis Mehefin 2025)

Diana Gerald MBE
Cyd-Brif Swyddog Gweithredol (yn effeithiol o fis Mehefin 2025)

Colin Atkins
Prif Swyddog Gweithredu

Mike Bues
Cyfarwyddwr Cyllid

Lizzie Catford
Cyfarwyddwr Llyfrau Plant

Katie Florence
Cyfarwyddwr Cyfathrebu (penodwyd 29 Gorffennaf 2025)

Julie Hayward
Cyfarwyddwr Partneriaethau

Ruthann Hughes
Cyfarwyddwr Ymchwil ac Effaith

Mae ein tîm arwain gweithredol (y tîm) yn gyfrifol am sicrhau ein bod yn gwneud y pethau cywir i gyflawni ein gweledigaeth, ein diben, ein strategaeth a'n cynllun ariannol. Mae'r tîm yn cwmpasu ystod lawn ein gwaith a'n cyrhaeddiad daearyddol, gan weithio gydag ystod eang o bartneriaid. Mae'r tîm yn cyfarwyddo ac yn rheoli'r adnoddau, y galluoedd a'r gallu i gyflawni'r rhain, wedi'i arwain gan werthoedd y sefydliad a'r cyfleoedd a'r heriau rydym yn eu blaenoriaethu i gael plant i ddarllen. Mae gan aelodau'r tîm arwain gweithredol rolau arwain yn ogystal â chyfrifoldebau swyddogaethol a gweithredol. Mae'r tîm yn sicrhau bod y staff cywir yn cael eu grymuso ac yn cael eu cynnwys mewn penderfyniadau strategol.

Mae'r holl staff, ar wahân i'r Cyd-Brif Swyddogion Gweithredol ac aelodau'r tîm arwain gweithredol sy'n adrodd i'r Cyd-Brif Swyddogion Gweithredol, yn cael eu talu o fewn fframwaith cyflog a bennir gan ddefnyddio gwerthusiad a dadansoddiad o'r swydd a, lle bo hynny'n berthnasol, meincnodi allanol. Cynhelir adolygiad blynyddol o gostau byw hefyd. Mae newidiadau i'r polisi cyflog ac i'r dyfarniad costau byw blynyddol yn cael eu penderfynu gan y bwrdd ymddiriedolwyr ar argymhelliad y Pwyllgor Cydraddoldeb, Amrywiaeth, Cynhwysiant a Chydnabyddiaeth. Cytunir ar gydnabyddiaeth y Cyd-Brif Swyddogion Gweithredol gan ymddiriedolwyr yn seiliedig ar werthusiad ffurfiol o'u perfformiad a meincnodi allanol cyfnodol, ac mae ymddiriedolwyr yn pennu ystodau cyflog blynyddol ar gyfer aelodau'r tîm arwain gweithredol.

Datganiad o gyfrifoldebau'r ymddiriedolwyr

Mae'r ymddiriedolwyr (sydd hefyd yn gyfarwyddwyr BookTrust at ddibenion cyfraith cwmnïau) yn gyfrifol am baratoi adroddiad yr ymddiriedolwyr a'r datganiadau ariannol yn unol â chyfraith gymwys a Safonau Cyfrifyddu'r Deyrnas Unedig (Arfer Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig).

Mae cyfraith cwmnïau yn ei gwneud yn ofynnol i'r ymddiriedolwyr baratoi datganiadau ariannol ar gyfer pob blwyddyn ariannol sy'n rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa BookTrust ac o'r adnoddau sy'n dod i mewn a'r ffordd y defnyddir adnoddau BookTrust, gan gynnwys incwm a gwariant, ar gyfer y cyfnod hwnnw. Wrth baratoi'r datganiadau ariannol hyn, mae'n ofynnol i'r ymddiriedolwyr wneud y canlynol:

- Dewis polisïau cyfrifyddu addas ac yna eu cymhwyso'n gyson
- Arsylwi ar y dulliau a'r egwyddorion yn y SORP Elusennau
- Gwneud dyfarniadau ac amcangyfrifon sy'n rhesymol ac yn ddoeth
- Nodi a yw Safonau Cyfrifyddu cymwys y DU wedi'u dilyn, yn amodol ar unrhyw ymadawiadau sylweddol sydd wedi'u datgelu a'u hegluro yn y datganiadau ariannol
- Paratoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes gweithredol oni bai ei bod yn amhriodol tybio y bydd BookTrust yn parhau i weithredu
- Cadw cofnodion cyfrifyddu priodol sy'n datgelu gyda chywirdeb rhesymol ar unrhyw adeg sefyllfa ariannol BookTrust ac sy'n eu galluogi i sicrhau bod y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â Deddf Cwmnïau 2006. Maent hefyd yn gyfrifol am ddiogelu asedau BookTrust a chymryd camau rhesymol felly i atal a chanfod twyll ac afreoleidd-dra arall
- Cynnal a sicrhau uniondeb y wybodaeth ariannol a chorfforaethol sydd wedi'i chynnwys ar wefan BookTrust

Budd y cyhoedd

Mae BookTrust wedi cyfeirio at ganllawiau cyffredinol y Comisiwn Elusennau ar fudd y cyhoedd wrth adolygu ei nodau a'i hamcanion ac wrth gynllunio gweithgareddau yn y dyfodol. Yn benodol, mae'r ymddiriedolwyr yn ystyried sut y bydd gweithgareddau a gynlluniwyd yn cyfrannu at y nodau a'r amcanion y maent wedi'u gosod.

Datganiad ynglŷn â datgelu gwybodaeth i'r archwilydd

Mae'r ymddiriedolwyr a oedd yn eu swydd ar y dyddiad y cymeradwywyd y datganiadau ariannol hyn wedi cadarnhau, hyd y gwyddant, nad oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw'r archwilydd yn ymwybodol ohoni. Mae pob un o'r ymddiriedolwyr wedi cadarnhau eu bod wedi cymryd yr holl gamau y dylent fod wedi'u cymryd fel cyfarwyddwyr i sicrhau eu bod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i sefydlu ei bod wedi'i chyfathrebu i'r archwilydd.

Mae adroddiad blynyddol yr ymddiriedolwyr, sy'n cynnwys yr adroddiad strategol, wedi'i gymeradwyo trwy orchymyn yr ymddiriedolwyr.

Wedi'i gymeradwyo a'i awdurdodi i'w gyhoeddi gan y Bwrdd Cyfarwyddwyr a'i lofnodi ar eu rhan gan:

Radha Chakraborty
Cadeirydd

Dyddiad: 07/10/2026

Gautam Dalal
Cyfarwyddwr

Dyddiad: 07/10/2026

Adroddiad yr archwilydd annibynnol i aelodau BookTrust

Barn

Rydym wedi archwilio datganiadau ariannol BookTrust ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2026 sy'n cynnwys y datganiad o weithgareddau ariannol, mantolen, datganiad llif arian parod a nodiadau i'r datganiadau ariannol, gan gynnwys polisïau cyfrifyddu arwyddocaol. Y fframwaith adrodd ariannol sydd wedi'i gymhwyso wrth eu paratoi yw cyfraith gymwys a Safonau Cyfrifyddu'r Deyrnas Unedig, gan gynnwys Safon Adrodd Ariannol 102, y Safon Adrodd Ariannol sy'n berthnasol yn y DU a Gweriniaeth Iwerddon (Arfer Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig).

Yn ein barn ni, mae'r datganiadau ariannol: yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa'r cwmni elusennol ar 31 Mawrth 2026 ac o'r adnoddau sy'n dod i mewn a'r ffordd y mae'n defnyddio ei adnoddau, gan gynnwys ei incwm a'i wariant, ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; wedi'u paratoi'n briodol yn unol ag Arfer Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig; ac wedi cael eu paratoi yn unol â Deddf Cwmnïau 2006.

Sail y farn

Gwnaethom gynnal ein harchwiliad yn unol â'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (DU) a chyfraith gymwys. Caiff ein cyfrifoldebau o dan y safonau hynny eu disgrifio ymhellach yn yr adran o'n hadroddiad sy'n dwyn y teitl Cyfrifoldebau'r archwilydd ar gyfer archwilio'r datganiadau ariannol. Rydym yn annibynnol ar y cwmni elusennol yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'n harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU, gan gynnwys Safon Foesegol FRC, ac rydym wedi cyflawni ein cyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credwn fod y dystiolaeth archwilio rydym wedi'i chael yn ddigonol ac yn briodol i roi sail i'n barn.

Casgliadau mewn perthynas â busnes gweithredol

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, rydym wedi dod i'r casgliad bod defnydd yr ymddiriedolwyr o'r sail gyfrifyddu busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol.

Yn seiliedig ar y gwaith rydym wedi'i gyflawni, nid ydym wedi nodi unrhyw ansicrwydd perthnasol yn ymwneud â digwyddiadau neu amodau a allai, yn unigol neu gyda'i gilydd, fwrw amheuaeth sylweddol ar allu'r cwmni elusennol i barhau fel busnes gweithredol am gyfnod o ddeuddeg mis o leiaf o'r adeg y mae'r datganiadau ariannol wedi'u hawdurdodi i'w cyhoeddi.

Disgrifir ein cyfrifoldebau ni a chyfrifoldebau'r ymddiriedolwyr mewn perthynas â busnes gweithredol yn adrannau perthnasol yr adroddiad hwn.

Gwybodaeth arall

Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys y wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn yr adroddiad blynyddol, ar wahân i'r datganiadau ariannol a'n hadroddiad archwilio ar hynny. Yr ymddiriedolwyr sy'n gyfrifol am y wybodaeth arall. Nid yw ein barn ar y datganiadau ariannol yn cynnwys y wybodaeth arall ac, ar wahân i'r graddau a nodir yn benodol fel arall yn ein hadroddiad, nid ydym yn mynegi unrhyw fath o gasgliad o ran sicrwydd ar hynny.

Ein cyfrifoldeb yw darllen y wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried a oes anghysondeb materol rhwng y wybodaeth arall a'r datganiadau ariannol neu'r wybodaeth a gafwyd yn ystod yr archwiliad neu a yw'n ymddangos ei bod wedi'i chamddatgan yn berthnasol fel arall. Os byddwn yn nodi unrhyw anghysondebau perthnasol o'r fath neu gamddatganiadau sy'n ymddangos yn berthnasol, mae'n ofynnol i ni benderfynu a yw hyn yn arwain at gamddatganiad perthnasol yn y datganiadau ariannol eu hunain. Os byddwn yn dod i'r casgliad, ar sail y gwaith rydym wedi'i gyflawni, bod y wybodaeth arall hon wedi'i chamddatgan yn berthnasol, mae'n ofynnol i ni adrodd y ffaith honno.

Nid oes gennym unrhyw beth i'w adrodd o ran hyn.

Barn ar faterion eraill a ragnodir gan Ddeddf Cwmnïau 2006

Yn ein barn ni, yn seiliedig ar y gwaith a wnaed yn ystod yr archwiliad:

- mae'r wybodaeth a roddir yn Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr sy'n cynnwys Adroddiad yr Ymddiriedolwyr a'r Adroddiad Strategol ar gyfer y flwyddyn ariannol y mae'r datganiadau ariannol wedi'u paratoi ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol;
- mae Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr sy'n cynnwys Adroddiad yr Ymddiriedolwyr a'r Adroddiad Strategol wedi'i baratoi yn unol â'r gofynion cyfreithiol cymwys.

Materion y mae'n ofynnol i ni adrodd arnynt trwy eithriad

Yng ngoleuni'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth am y cwmni elusennol a'i amgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid ydym wedi nodi camddatganiadau perthnasol yn Adroddiad Blynyddol ac Adroddiad Strategol yr Ymddiriedolwyr.

Nid oes gennym unrhyw beth i'w adrodd mewn perthynas â'r materion canlynol lle mae Deddf Cwmnïau 2006 yn ei gwneud yn ofynnol i ni adrodd i chi os, yn ein barn ni:

- nid yw cofnodion cyfrifyddu digonol wedi'u cadw, neu nid yw ffurflenni digonol ar gyfer ein harchwiliad wedi'u derbyn gan ganghennau nad ydym wedi ymweld â nhw; neu
- nid yw'r datganiadau ariannol yn gyson â'r cofnodion cyfrifyddu a'r ffurflenni; neu
- nid yw datgeliadau penodol o gydnabyddiaeth ymddiriedolwyr a bennir gan y gyfraith yn cael eu gwneud; neu
- nid ydym wedi derbyn yr holl wybodaeth ac esboniadau sydd eu hangen arnom ar gyfer ein harchwiliad

Cyfrifoldebau ymddiriedolwyr

Fel yr eglurir yn llawnach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau Ymddiriedolwyr ar dudalen 41, mae'r ymddiriedolwyr (sydd hefyd yn gyfarwyddwyr y cwmni elusennol at ddibenion cyfraith cwmnïau) yn gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol ac am fod yn fodlon eu bod yn rhoi darlun gwir a theg, ac am y fath reolaeth fewnol ag y mae'r ymddiriedolwyr yn penderfynu ei bod yn angenrheidiol i sicrhau bod modd paratoi datganiadau ariannol sy'n rhydd o gamddatganiad perthnasol, boed hynny trwy dwyll neu wall.

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, mae'r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am asesu gallu'r cwmni elusennol i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu, fel y bo'n berthnasol, faterion sy'n ymwneud â'r busnes gweithredol a defnyddio'r sail gyfrifyddu busnes gweithredol oni bai bod yr ymddiriedolwyr naill ai'n bwriadu diddymu'r cwmni elusennol neu roi'r gorau i weithredu, neu nad oes ganddynt ddewis realistig arall i wneud hynny.

Cyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol

Rydym wedi cael ein penodi fel archwilwyr o dan Ddeddf Cwmnïau 2006 ac rydym yn adrodd yn unol â rheoliadau a wneir o dan y Ddeddf honno.

Ein hamcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch a yw'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn rhydd o gamddatganiad perthnasol, boed hynny trwy dwyll neu wall, a chyhoeddi adroddiad archwilydd sy'n cynnwys ein barn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n warant y bydd archwiliad a gynhelir yn unol â'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (DU) bob amser yn canfod camddatganiad perthnasol pan fo'n bodoli. Gall camddatganiadau ddeillio o dwyll neu wall ac fe'u hystyrir yn berthnasol os, yn unigol neu gyda'i gilydd, gellid yn rhesymol ddisgwyl iddynt ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Mae afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll, yn golygu achosion o ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau. Rydym yn dylunio gweithdrefnau yn unol â'n cyfrifoldebau, a amlinellir uchod, i ganfod camddatganiadau perthnasol mewn perthynas ag afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll. Nodir isod y gweithdrefnau penodol ar gyfer yr ymgysylltiad hwn a'r graddau y gall y gweithdrefnau hyn ganfod afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll.

Nodi ac asesu risgiau sy'n gysylltiedig ag afreoleidd-dra:
Gwnaethom asesu pa mor agored yw datganiadau ariannol y cwmni elusennol i gamddatganiad perthnasol a sut y gallai twyll ddigwydd, gan gynnwys trwy drafodaethau â'r ymddiriedolwyr, trafodaethau yng nghyfarfod cynllunio ein tîm archwilio, diweddaru ein cofnod o reolaethau mewnol a sicrhau bod y rheolaethau hyn yn gweithredu fel y bwriadwyd. Gwnaethom werthuso cymhellion a chyfleoedd posibl i drin y datganiadau ariannol yn dwyllodrus. Gwnaethom nodi deddfau a rheoliadau sy'n bwysig yng nghyd-destun y cwmni elusennol trwy drafodaethau ag ymddiriedolwyr a thrwy ddiweddaru ein dealltwriaeth o'r sector y mae'r cwmni elusennol yn gweithredu ynddo.

Mae deddfau a rheoliadau o arwyddocâd uniongyrchol yng nghyd-destun y cwmni elusennol yn cynnwys Deddf Cwmnïau 2006, a chanllawiau a gyhoeddir gan Gomisiwn Elusennau Cymru a Lloegr.

Ymateb archwilio i'r risgiau a nodwyd:
Gwnaethom ystyried i ba raddau y cydymffurfir â'r deddfau a'r rheoliadau hyn fel rhan o'n gweithdrefnau archwilio ar yr eitemau datganiad ariannol cysylltiedig, gan gynnwys adolygiad o ddatgeliadau yn y datganiadau ariannol. Adolygwyd cofnodion y cwmni elusennol o dorri cyfreithiau a rheoliadau, cofnodion cyfarfodydd a gohebiaeth ag awdurdodau perthnasol i nodi camddatganiadau perthnasol a allai godi. Trafodwyd polisïau a gweithdrefnau'r cwmni elusennol ar gyfer cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau gydag aelodau o'r tîm rheoli sy'n gyfrifol am gydymffurfio.

Yn ystod y cyfarfod cynllunio gyda'r tîm archwilio, tynnodd y partner ymgysylltu sylw at y meysydd allweddol a allai gynnwys diffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau neu dwyll. Gwnaethom holi rheolwyr a oeddent yn ymwybodol o unrhyw achosion o beidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau neu wybodaeth am unrhyw dwyll gwirioneddol, twyll tybiedig neu dwyll honedig. Gwnaethom fynd i'r afael â'r risg o dwyll trwy fod rheolwyr yn diystyru rheolaethau trwy brofi priodoldeb cofnodion dyddlyfr a nodi unrhyw drafodion arwyddocaol a oedd yn anarferol neu y tu allan i gwrs arferol busnes. Gwnaethom asesu a oedd dyfarniadau a wnaed wrth wneud amcangyfrifon cyfrifyddu yn arwydd

posibl bod rhagfarn ymhlith rheolwyr. Ar gam cwblhau'r archwiliad, roedd adolygiad y partner ymgysylltu yn cynnwys sicrhau bod y tîm wedi mynd i'r afael â'u gwaith gydag amheuaeth broffesiynol briodol ac felly'r gallu i nodi diffyg cydymffurfiaeth â chyfreithiau a rheoliadau a thwyll.

Mae cyfyngiadau cynhenid yn y gweithdrefnau archwilio a ddisgrifir uchod a pho fwyaf yw'r pellter rhwng diffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau a'r digwyddiadau a'r trafodion a adlewyrchir yn y datganiadau ariannol, y lleiaf tebygol ydyw y byddem yn dod yn ymwybodol ohono. Hefyd, mae'r risg o beidio â chanfod camddatganiad perthnasol oherwydd twyll yn uwch na'r risg o beidio â chanfod un sy'n deillio o wall, gan y gall twyll gynnwys celu'n fwriadol trwy, er enghraifft, ffugio neu gamliwio bwriadol, neu drwy gydgynllwynio.

Mae disgrifiad pellach o'n cyfrifoldebau ar gael ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol yn: **www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities**. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o adroddiad yr archwilydd.

Defnyddio ein hadroddiad

Cyflwynir yr adroddiad hwn i aelodau'r cwmni elusennol yn unig, fel corff, yn unol â Phennod 3 o Ran 16 o Ddeddf Cwmnïau 2006. Cynhaliwyd ein gwaith archwilio fel y gallem ddatgan i aelodau'r cwmni elusennol y materion hynny y mae'n ofynnol i ni eu datgan iddynt mewn adroddiad archwilydd ac nid ar gyfer unrhyw ddiben arall. I'r graddau mwyaf a ganiateir gan y gyfraith, nid ydym yn derbyn nac yn ysgwyddo chyfrifoldeb i unrhyw un heblaw'r cwmni elusennol ac aelodau'r cwmni elusennol fel corff, am ein gwaith archwilio, am yr adroddiad hwn, neu am y farn a ffurfiwyd gennym.

Sally Appleton
(Uwch archwilydd statudol)

ar gyfer ac ar ran

Saffery Audit (UK) LLP
10 Wellington Place,
Leeds,
LS1 4AP

Archwilwyr Statudol

Dyddiad: 21/10/2026

Mae Saffery Audit (UK) LLP yn gymwys i weithredu fel archwilydd o ran adran 1212 o Ddeddf Cwmnïau 2006

Datganiad o weithgareddau ariannol

(gan gynnwys cyfrif incwm a gwariant ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2026)

	Nodyn	Cronfeydd anghyfyngedig 2026 (£)	Cronfeydd cyfyngedig 2026 (£)	Cyfanswm cronfeydd 2026 (£)w	Cyfanswm cronfeydd 2025 (£)
		£'000	£'000	£'000	£'000
Incwm o:					
Cyllid statudol		5,856	886	6,742	6,733
Partneriaethau corfforaethol		691	16	707	558
Rhoddion unigol		1,783	-	1,783	1,587
Ymddiriedolaethau a sefydliadau		263	1,325	1,588	1,113
Gweithgarwch a fasnachir		2,232	-	2,232	2,369
Difidendau a llog ar fuddsoddiadau		59	-	59	72
		10,884	2,227	13,111	12,432
Gwariant ar:	2a				
Sicrhau rhoddion		1,109	63	1,172	1,107
Gweithgareddau elusennol					
Nod effaith 1		2,027	525	2,552	2,544
Nod effaith 2		5,575	1,428	7,003	7,088
Nod effaith 3		1,682	211	1,893	1,791
		10,393	2,227	12,620	12,530
Incwm/(gwariant) net cyn enillion ar fuddsoddiadau	3	**491**	**-**	**491**	**(98)**
Enillion net ar fuddsoddiadau	7	215	-	215	65
Incwm/(gwariant) net		**706**	-	**706**	**(33)**
Cyfanswm y cronfeydd a ddygwyd ymlaen		6,159	-	6,159	6,192
Cyfanswm y cronfeydd a gariwyd ymlaen		**6,865**	-	**6,865**	**6,159**

Gellir dod o hyd i esboniad o bob nod effaith ar dudalen 34.

Mantolen

Ar 31 Mawrth 2026

	Nodyn	2026		2025	
		£'000	£'000	£'000	£'000
Asedau anniriaethol	6		160		240
Asedau cyfredol					
Buddsoddiadau	7	3,716		3,513	
Stoc		1,255		1,331	
Dyledwyr	8	1,052		1,411	
Arian parod yn y banc ac mewn llaw		2,689		1,509	
		8,712		7,764	
Credydwyr: symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn	9	(2,007)		(1,845)	
Asedau cyfredol net			6,705		5,919
Asedau net			**6,865**		**6,159**
Cronfeydd					
Cronfeydd cyfyngedig	11a		-		-
Anghyfyngedig					
Cronfeydd cyffredinol	11a		6,865		6,159
			6,865		**6,159**

Wedi'i gymeradwyo a'i awdurdodi i'w gyhoeddi gan y bwrdd cyfarwyddwyr ar 7 Hydref 2026 a'i lofnodi ar eu rhan gan:

Radha Chakraborty
Cyfarwyddwr

Gautam Dalal
Trysorydd

Datganiad llif arian parod

Ar 31 Mawrth 2026

	2026	2025
	£'000	£'000
Llif arian parod o weithgareddau gweithredu		
Incwm/(gwariant) net cyn enillion ar fuddsoddiadau ar gyfer y cyfnod adrodd (yn unol â'r datganiad o weithgareddau ariannol)	491	(98)
Amorteiddio	80	-
Difidendau a llog ar fuddsoddiadau	55	59
Gostyngiad mewn stoc	76	53
Gostyngiad mewn dyledwyr	359	37
Cynnydd/(gostyngiad) mewn credydwyr	162	(315)
Arian parod net a ddarperir gan weithgareddau gweithredu	**1,223**	**(264)**
Llifau arian parod o weithgareddau buddsoddi		
Difidendau a llog ar fuddsoddiadau	(55)	(59)
Prynu asedau anniriaethol	-	(240)
Symudiad arian parod net mewn buddsoddiadau	12	(3)
Newid mewn arian parod yn y cyfnod adrodd	**1,180**	**(566)**
Dadansoddiad o arian parod a'r hyn sy'n gyfwerth ag arian parod		
Arian parod mewn llaw		
Balans a ddygwyd ymlaen	1,509	2,075
Cynnydd/(gostyngiad) yn y flwyddyn	1,180	(566)
Balans a gariwyd ymlaen	**2,689**	**1,509**
Arian parod mewn llaw		
Balans banc	2,689	1,509
	2,689	**1,509**

Nodiadau i'r cyfrifon

31 Mawrth 2026

1 Prif bolisïau cyfrifyddu

(a) Gwybodaeth gyffredinol

Mae BookTrust yn gwmni elusennol cofrestredig cyfyngedig trwy warant yn y DU. Mae ei swyddfeydd cofrestredig yn 1 Aire Street, Leeds, LS1 4PR.

(b) Sail cyfrifyddu

Mae'r datganiadau ariannol wedi'u paratoi yn unol â Chyfrifyddu ac Adrodd gan Elusennau: Datganiad o'r Arfer a Argymhellir (SORP) sy'n berthnasol i elusennau sy'n paratoi eu cyfrifon yn unol â'r Safon Adrodd Ariannol sy'n berthnasol yn y DU a Gweriniaeth Iwerddon (FRS 102) - (Elusennau SORP (FRS 102)), a Deddf Cwmnïau 2006.

Mae BookTrust yn bodloni'r diffiniad o endid budd cyhoeddus o dan FRS 102. Mae asedau a rhwymedigaethau yn cael eu cydnabod i ddechrau ar gost hanesyddol neu werth y trafodiad oni nodir yn wahanol yn y nodyn/nodiadau polisi cyfrifyddu perthnasol.

(c) Paratoi cyfrifon ar sail busnes gweithredol

Mae'r ymddiriedolwyr o'r farn nad oes unrhyw ansicrwydd perthnasol ynghylch gallu'r elusen i barhau fel busnes gweithredol. Mae'r adolygiad o'n sefyllfa ariannol, lefelau cronfeydd wrth gefn a chynlluniau ar gyfer y dyfodol yn rhoi hyder i'r ymddiriedolwyr y bydd yr elusen yn parhau i fod yn fusnes gweithredol hyd y gellir rhagweld.

(d) Cyfrifyddu cronfeydd

Anghyfyngedig:

Mae cronfeydd anghyfyngedig yn cefnogi gofynion cyfalaf gweithio, yn cwmpasu rheoli risg ac ar gael i'w defnyddio yn ôl disgresiwn y cyfarwyddwyr i hyrwyddo amcanion cyffredinol yr elusen ac nad ydynt wedi'u dynodi at ddibenion eraill.

Cyfyngedig:

Mae cronfeydd cyfyngedig yn gronfeydd y gellir eu defnyddio at ddibenion penodol yn unig o fewn amcanion yr elusen. Mae cyfyngiadau'n codi pan y'u nodir gan y rhoddwr neu pan fydd arian yn cael ei godi at ddibenion cyfyngedig penodol, fel y manylir yn nodyn 11.

Nodiadau i'r cyfrifon
31 Mawrth 2026

(e) Incwm

Caiff yr holl incwm ei gynnwys yn y datganiad o weithgareddau ariannol pan fydd gan yr elusen hawl i'r incwm a gellir meintioli'r swm gyda chywirdeb rhesymol. Caiff y gweithgareddau penodol canlynol eu cymhwyso i gategorïau penodol o incwm:

- Caiff rhoddion anghyfyngedig eu cydnabod fel incwm pan fyddant yn fesuradwy, yn debygol a phan gaiff yr hawl ei throsglwyddo i BookTrust. Mae hyn fel arfer ar ôl cael a derbyn y rhodd.
- Caiff incwm o unrhyw apêl am roddion am reswm penodol ei drin fel incwm cyfyngedig; a chaiff ei gydnabod pan fydd amodau'r apêl wedi'u bodloni.
- Caiff cymynroddion eu cydnabod pan fodlonir pob un o'r tri maen prawf canlynol:
    a. Tebygol – mae'r elusen yn ymwybodol bod profiant wedi'i ganiatáu.
    b. Mesuradwy – yn ymarferol gallai hyn ddod o gyfrifon terfynol ystad, arian parod a dderbyniwyd neu ohebiaeth gan ysgutorion/cyfreithwyr sy'n cadarnhau swm i'w ddosbarthu.
    c. Hawl – wedi'i chymryd fel y cynharaf o gyfrifon terfynol ystad sy'n cael eu cymeradwyo neu arian parod a dderbyniwyd. Pan fo'r elusen wedi cael ei hysbysu am gymynroddion, neu pan fo'r elusen yn ymwybodol bod profiant wedi'i ganiatáu, ac nad yw'r meini prawf ar gyfer cydnabod incwm wedi'u bodloni, yna caiff y gymynrodd ei thrin fel ased annisgwyl a'i datgelu os yw'n berthnasol.
- Rhoddir cyfrif am incwm grant gan Gyngor Celfyddydau Lloegr fel incwm anghyfyngedig yn y cyfnod y mae'n berthnasol iddo.
- Dim ond pan fydd yr amodau o dan delerau'r grant wedi'u bodloni y rhoddir cyfrif am incwm o weithgareddau elusennol fel incwm, ac mae'n cynnwys cyfraniadau gan sefydliadau ar gyfer cyflenwi pecynnau, llyfrau, hyrwyddiadau a gwobrau.
- I'r graddau nad ydynt yn ddarostyngedig i amodau sy'n gysylltiedig â pherfformiad, rhoddir cyfrif am incwm o grantiau, gan gynnwys grantiau'r llywodraeth, at ddiben penodol fel incwm wrth iddynt gael eu derbyn a rhoddir cyfrif amdanynt fel cronfeydd cyfyngedig.
- Ar gyfer grantiau perthnasol, rhoddir cyfrif am incwm wrth i'r elusen ennill yr hawl i gael ei hystyried trwy ei pherfformiad. Pan dderbynnir y grant cyn perfformiad, caiff ei gydnabyddiaeth ei gohirio a'i chynnwys yn credydwyr. Pan fo'r hawl yn digwydd cyn i'r grant gael ei dderbyn, caiff ei gronni yn dyledwyr.
- Mae incwm o fuddsoddiadau yn cael ei gynnwys pan fo'n dderbyniadwy.

(f) Gwariant

Mae'r holl wariant yn cael ei gyfrif ar sail croniadau wrth fynd iddo. Mae gwariant yn cynnwys unrhyw TAW na ellir ei hadennill yn llawn, ac adroddir hyn fel rhan o'r gwariant y mae'n ymwneud ag ef:

- Mae costau codi arian yn cynnwys y costau sy'n gysylltiedig â denu incwm gwirfoddol a chostau codi arian. Costau codi arian yw'r rhai yr eir iddynt wrth geisio grantiau ac maent yn cynnwys y gost o ledaenu gwybodaeth i gefnogi'r gweithgareddau elusennol.
- Mae gwariant elusennol yn cynnwys y costau hynny y mae BookTrust yn mynd iddynt wrth ddarparu ei gweithgareddau a'i gwasanaethau i'w buddiolwyr. Mae'n cynnwys costau y gellir eu dyrannu'n uniongyrchol a'r costau hynny o natur anuniongyrchol sy'n angenrheidiol i'w cefnogi.
- Mae costau llywodraethu yn cynnwys y costau hynny sy'n gysylltiedig â bodloni gofynion cyfansoddiadol a statudol yr elusen ac maent yn cynnwys y ffioedd archwilio a'r costau sy'n gysylltiedig ag ysgrifennydd y cwmni.
- Mae costau cymorth yn cynnwys swyddogaethau canolog ac maent wedi'u dyrannu i gategorïau costau gweithgareddau ar sail sy'n gyson â'r defnydd o adnoddau. Caiff y rhain eu hymgorffori yn y ffigurau gwariant yn y datganiad o weithgareddau ariannol.

(g) Stoc

Mae stoc yn cael ei phrisio ar bris cost (heb ostyngiadau) os bydd ei cael ei defnyddio yn y rhaglen y flwyddyn ganlynol. Mae gwerth stoc sydd wedi darfod yn cael ei leihau i sero a chaiff stoc a ddelir o dan gontract ei phrisio ar y gwerth gwireddadwy net.

Mae BookTrust yn derbyn gostyngiadau sylweddol gan gyhoeddwyr mewn perthynas â llyfrau ac eitemau eraill o stoc, i'w dosbarthu i fuddiolwyr a/neu eu gwerthu er mwyn hyrwyddo ei hamcanion elusennol.

Gwerth y buddion disgownt mewn nwyddau hyn gan gyhoeddwyr yw £5,200,000 (2025: £5,300,000).

(h) Amorteiddio

Cyfrifir amorteiddio er mwyn dileu cost ased, llai ei werth gweddilliol amcangyfrifedig, dros oes ddefnyddiol yr ased hwnnw fel a ganlyn:

Gwefan: llinell syth 3 blynedd

Os oes arwydd bod newid sylweddol wedi bod yng nghyfradd amorteiddio, bywyd defnyddiol neu werth gweddilliol ased anniriaethol, caiff yr amorteiddiad ei adolygu'n ddichonol i adlewyrchu'r amcangyfrifon newydd.

(i) Asedau sefydlog

Caiff asedau dros £10,000 eu cyfalafu.

Nodiadau i'r cyfrifon

31 Mawrth 2026

(j) Dyledwyr

Caiff dyledwyr masnach a dyledwyr eraill eu cydnabod ar swm y setliad sy'n ddyledus. Caiff rhagdaliadau eu prisio ar y swm a dalwyd ymlaen llaw.

(k) Credydwyr a darpariaethau

Caiff credydwyr a darpariaethau eu cydnabod lle mae gan yr elusen rwymedigaeth bresennol sy'n deillio o ddigwyddiad yn y gorffennol a fydd yn debygol o arwain at drosglwyddo arian i drydydd parti a lle gall y swm sy'n ddyledus i setlo'r rhwymedigaeth gael ei fesur neu ei amcangyfrif yn ddibynadwy. Fel arfer, caiff credydwyr a darpariaethau eu cydnabod ar eu swm setlo.

(l) Arian parod yn y banc ac mewn llaw a'r hyn sy'n gyfwerth ag arian parod

Mae arian parod yn y banc ac mewn llaw yn cynnwys arian parod a ddelir mewn cyfrifon.

(m) Offerynnau ariannol

Ac eithrio asedau buddsoddi, dim ond asedau ariannol a rhwymedigaethau ariannol o fath sy'n gymwys fel offerynnau ariannol sylfaenol sydd gan yr ymddiriedolaeth. Caiff offerynnau ariannol sylfaenol eu cydnabod i ddechrau ar werth y trafodiad a chânt eu mesur wedyn ar eu gwerth setlo. Caiff asedau buddsoddi eu mesur ar werth teg.

(n) Pensiynau

Mae BookTrust yn gweithredu cynllun pensiwn cyfraniadau diffinedig. Caiff asedau'r cynllun eu dal ar wahân i rai'r elusen mewn cynllun a weinyddir yn annibynnol. Caiff cyfraniadau i gynllun pensiwn cyfranddeiliaid yr elusen eu rhoi ar y datganiad o weithgareddau ariannol yn y flwyddyn y maent yn dod yn daladwy.

(o) Buddsoddiadau

Caiff buddsoddiadau eu prisio ar eu gwerth ar y farchnad ar ddyddiad y fantolen, sy'n arwain at enillion a cholledion heb eu gwireddu sy'n cael eu cynnwys yn y datganiad o weithgareddau ariannol.

(p) Dyfarniadau cyfrifyddu arwyddocaol ac ansicrwydd ynghylch ffynonellau amcangyfrif

Nid oes unrhyw rannau yn y cyfrifon lle y bu'n ofynnol i reolwyr wneud dyfarniadau neu amcangyfrifon sylweddol oherwydd ansicrwydd.

Nodiadau i'r cyfrifon

31 Mawrth 2026

2a Dadansoddiad o wariant (blwyddyn gyfredol)

	Gweithgareddau Elusennol							
	Codi arian	Nod effaith 1	Nod effaith 2	Nod effaith 3	Costau llywodraethu	Costau cymorth	Cyfanswm 2026	Cyfanswm 2025
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Llyfrau ac adnoddau	184	526	1,856	401	-	-	2,967	3,117
Ymchwil, cyhoeddusrwydd ac ymgysylltu	179	140	208	200	-	25	752	902
Dosbarthu/warysau	1	431	686	177	-	-	1,295	1,635
Costau cyflogres (nodyn 4)	568	927	2,835	728	53	872	5,983	5,355
Costau staffio eraill	1	37	81	31	-	246	396	296
Teithio a chynhaliaeth	1	28	71	13	-	13	126	109
Ffioedd proffesiynol a chostau cyllid	35	-	-	1	20	155	211	182
Costau sefydliad a swyddfeydd	6	9	21	5	-	386	427	572
TG	-	28	76	21	-	338	463	362
	975	2,126	5,834	1,577	73	2,035	12,620	12,530
Costau cymorth	190	411	1,129	305	-	(2,035)	-	-
Costau llywodraethu	7	15	40	11	(73)	-	-	-
Cyfanswm gwariant 2026	**1,172**	**2,552**	**7,003**	**1,893**	**-**	**-**	**12,620**	**-**
Cyfanswm gwariant 2025	**1,107**	**2,544**	**7,088**	**1,791**	**-**	**-**	**-**	**12,530**

O gyfanswm y gwariant, roedd £10,393,000 yn anghyfyngedig (2025: £10,430,000) a £2,227,000 yn gyfyngedig (2025: £2,100,000).

Gellir dod o hyd i esboniad o bob nod effaith ar **dudalen 34**.

Nodiadau i'r cyfrifon

31 Mawrth 2026

2b Dadansoddiad o wariant (blwyddyn flaenorol)

	Gweithgareddau Elusennol						
	Codi arian	Nod effaith 1	Nod effaith 2	Nod effaith 3	Costau llywodraethu	Costau cymorth	Cyfanswm 2025
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Llyfrau ac adnoddau	192	568	1,974	383	-	-	3,117
Ymchwil, cyhoeddusrwydd ac ymgysylltu	172	248	219	233	-	30	902
Dosbarthu/warysau	2	424	1,023	186	-	-	1,635
Costau cyflogres (nodyn 4)	528	806	2,548	646	31	796	5,355
Costau staffio eraill	-	24	34	22	-	216	296
Teithio a chynhaliaeth	1	28	57	10	-	13	109
Ffioedd proffesiynol a chostau cyllid	26	6	-	1	41	108	182
Costau sefydliad a swyddfeydd	5	5	15	4	-	543	572
TG	-	21	62	14	-	265	362
	926	2,130	5,932	1,499	72	1,971	12,530
Costau cymorth	175	399	1,115	282	-	(1,971)	-
Costau llywodraethu	6	15	41	10	(72)	-	-
Cyfanswm gwariant 2025	**1,107**	**2,544**	**7,088**	**1,791**	**-**	**-**	**12,530**

Gellir dod o hyd i esboniad o bob nod effaith ar **dudalen 34**.

Nodiadau i'r cyfrifon
31 Mawrth 2026

3 Adnoddau net sy'n dod i mewn/(allan)

	2026	2025
	£'000	£'000
Nodir hyn ar ôl codi am y canlynol:		
Mae costau uniongyrchol a thaliadau gweithredu eraill yn cynnwys:		
Prydlesi gweithredu		
• Rhenti sy'n daladwy	326	374
Cydnabyddiaeth archwilwyr		
• Gwasanaethau archwilio	17	17
• Gwasanaethau nad ydynt yn ymwneud ag archwilio	-	5

4 Costau staff

	2026	2025
	£'000	£'000
Cyflogau	4,730	4,380
Costau nawdd cymdeithasol	619	464
Costau pensiwn	559	478
Taliadau diswyddo a therfynu	75	33
	5,983	5,355

Nifer y cyflogeion sy'n derbyn cyfanswm cydnabyddiaeth gros yn y flwyddyn yn yr ystod:

	Nifer 2026	Nifer 2025
£60,000 – £69,999	3	5
£70,000 – £79,999	2	4
£80,000 – £89,999	3	1
£90,000 – £99,999	2	1
£100,000 – £109,999	-	2
£110,000 – £119,999	2	-
£120,000 – £129,999	1	1
	13	14

Mae'r personél rheoli allweddol yn cynnwys yr uwch dîm arwain a chyfanswm cost y gydnabyddiaeth, y buddion a'r pensiynau a dalwyd iddynt yn ystod y flwyddyn oedd £945,000 (2025: £897,000)

Cyfanswm cyfraniadau pensiwn cyflogwyr yn ystod y flwyddyn ar gyfer yr aelodau staff hyn oedd £55,000 (2025: £53,000)

	Nifer 2026	Nifer 2025
Nifer cyfartalog y cyflogeion yn ôl swyddogaeth oedd:		
Gweithgarwch elusennol	85	80
Codi arian	9	8
Gweinyddu a chymorth	12	14
	106	102

Nid yw'r ymddiriedolwyr wedi derbyn unrhyw gydnabyddiaeth na buddion mewn nwyddau yn ystod y flwyddyn (2025: £dim).

	Nifer 2026	Nifer 2025
Nifer yr ymddiriedolwyr yr ad-dalwyd treuliau iddynt yn ystod y flwyddyn	8	8

Ad-dalwyd llai na £500 o dreuliau i'r ymddiriedolwyr yn ystod y flwyddyn (2025:<£500)

Nodiadau i'r cyfrifon
31 Mawrth 2026

5 Trethiant

Fel elusen gofrestredig, mae Booktrust wedi'i heithrio rhag trethiant ar incwm sy'n deillio o'i gweithgareddau elusennol.

6 Asedau anniriaethol

	Gwefan
Cost	**£'000**
Ar 1 Ebrill 2025	-
Ased sy'n cael ei ddatblygu yn cael ei ddefnyddio	240
Gwarediadau	-
Ar 31 Mawrth 2026	240
Amorteiddio	
Ar 1 Ebrill 2025	-
Tâl am y flwyddyn	80
Ar 31 Mawrth 2026	80
Gwerth llyfr net	
Ar 31 Mawrth 2026	160
Ar 31 Mawrth 2025	240

Ar ddiwedd y flwyddyn flaenorol, roedd BookTrust wedi mynd i gostau o £240,000 wrth adeiladu gwefan newydd, a oedd yn dal i gael ei datblygu ar ddiwedd y flwyddyn. Aeth y wefan newydd yn fyw ar 14 Ebrill 2025, a dechreuwyd defnyddio'r ased ar y pwynt hwnnw.

7 Buddsoddiadau

	2026	2025
	£'000	**£'000**
Gwerth teg ar ddechrau'r flwyddyn	3,513	3,451
Enillion net ar newid yng ngwerth teg buddsoddiadau	215	65
Symudiad mewn balans arian parod	(12)	(3)
Gwerth teg ar ddiwedd y flwyddyn	3,716	3,513
Cost hanesyddol	3,000	3,000

Cyfanswm y taliadau rheoli buddsoddiadau oedd £13,500 (2025: £18,000)

Nodiadau i'r cyfrifon

31 Mawrth 2026

8 Dyledwyr

	2026	2025
	£'000	£'000
Symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn:		
Dyledwyr masnach	434	405
Dyledwyr eraill	191	251
Rhagdaliadau ac incwm cronnus	427	755
	1,052	1,411

9 Credydwyr

	2026	2025
	£'000	£'000
Symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn:		
Credydwyr masnach	342	445
Trethi eraill a nawdd cymdeithasol	145	124
Croniadau	122	375
Incwm gohiriedig (nodyn 12)	1,398	901
	2,007	1,845

10 Offerynnau ariannol

	2026	2025
	£'000	£'000
Asedau ariannol		
Asedau ariannol wedi'u mesur ar gost wedi'i hamorteiddio	3,334	2,493
Asedau ariannol wedi'u mesur ar werth teg trwy elw neu golled	3,716	3,512
	7,050	6,005

	2026	2025
	£'000	£'000
Rhwymedigaethau ariannol		
Rhwymedigaethau ariannol wedi'u mesur ar gost wedi'i hamorteiddio	467	821
	467	821

Mae asedau ariannol a fesurir ar gost wedi'u hamorteiddio yn cynnwys arian parod, symiau derbyniadwy trwy fasnach, symiau derbyniadwy eraill ac eithrio symiau treth derbyniadwy, ac incwm cronnus.

Mae asedau ariannol a fesurir ar werth teg trwy elw a cholled yn cynnwys buddsoddiadau mewn gwarantau a fasnachir yn gyhoeddus.

Mae rhwymedigaethau ariannol a fesurir ar gost wedi'i hamorteiddio yn cynnwys symiau masnach taladwy a chroniadau.

Nodiadau i'r cyfrifon
31 Mawrth 2026

11a Cronfeydd

	1 Ebrill 2025	Adnoddau sy'n dod i mewn	Adnoddau sydd wedi'u defnyddio	Trosglwyddiadau rhwng cronfeydd	Enillion o fuddsoddiadau	31 Mawrth 2026
Cronfeydd anghyfyngedig:						
Cronfeydd cyffredinol	6,159	10,884	(10,393)	-	215	6,865
Cronfeydd cyfyngedig:						
Sicrhau rhoddion	-	63	(63)	-	-	-
Nod effaith 1	-	525	(525)	-	-	-
Nod effaith 2	-	1,428	(1,428)	-	-	-
Nod effaith 3	-	211	(211)	-	-	-
	-	2,227	(2,227)	-	-	-
	6,159	13,111	(12,620)	-	215	6,865

Mae incwm yn cynnwys incwm anghyfyngedig o £5,856,000 gan Gyngor Celfyddydau Lloegr yn 2025/26 (2024/25: £5,788,000).

Cronfeydd anghyfyngedig
Cyfanswm y cronfeydd cyffredinol ar 31 Mawrth 2026 oedd £6,865,000 (2025: £6,159,000). Mae'r cronfeydd hyn yn cefnogi gofynion cyfalaf gweithio, yn cwmpasu rheoli risg ac ar gael i'w defnyddio yn ôl disgresiwn y cyfarwyddwyr i hyrwyddo amcanion cyffredinol yr elusen ac nad ydynt wedi'u dynodi at ddibenion eraill.

Cronfeydd cyfyngedig
Mae cronfeydd cyfyngedig wedi'u dosbarthu yn ôl y dibenion y cawsant eu derbyn ar eu cyfer, ac maent yn cynnwys yr holl grantiau a rhoddion lle mae'r amodau ar gyfer eu cydnabod wedi'u bodloni ar ddyddiad y fantolen. Mae'r ymddiriedolwyr wedi cynnal adolygiad o'r cronfeydd hyn ac maent yn fodlon bod cynlluniau clir i ddefnyddio'r cronfeydd hyn at y dibenion a nodwyd.

Nodiadau i'r cyfrifon
31 Mawrth 2026

11b Cronfeydd y flwyddyn flaenorol

	1 Ebrill 2024	Adnoddau sy'n dod i mewn	Adnoddau sydd wedi'u defnyddio	Trosglwyddiadau rhwng cronfeydd	Enillion o fuddsoddiadau	31 Mawrth 2026
Cronfeydd anghyfyngedig:						
Cronfeydd cyffredinol	6,005	10,332	(10,430)	187	65	6,159
Cronfeydd cyfyngedig:						
Sicrhau rhoddion	-	63	(63)	-	-	-
Nod effaith 1	75	496	(496)	(75)	-	-
Nod effaith 2	112	1,189	(1,189)	(112)	-	-
Nod effaith 3	-	352	(352)	-	-	-
	187	2,100	(2,100)	(187)	-	-
	6,192	12,432	(12,530)	-	65	6,159

Nodiadau i'r cyfrifon
31 Mawrth 2026

12 Incwm gohiriedig

	Clwb Blwch Llythyrau	Bookbuzz	Cyllid grant	Arall	Cyfanswm
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Balans ar 1 Ebrill 2025	652	211	7	31	901
Rhyddhawyd i adnoddau sy'n dod i mewn	(1,267)	(792)	(1,520)	(58)	(3,637)
Swm a ohiriwyd yn ystod y flwyddyn	1,155	744	2,163	72	4,134
Balans ar 31 Mawrth 2026	540	163	650	45	1,398

Incwm gohiriedig yn y flwyddyn flaenorol

	Clwb Blwch Llythyrau	Bookbuzz	Cyllid grant	Arall	Cyfanswm
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Balans ar 1 Ebrill 2024	708	215	587	-	1,510
Rhyddhawyd i adnoddau sy'n dod i mewn	(1,340)	(835)	(933)	(36)	(3,144)
Swm a ohiriwyd yn ystod y flwyddyn	1,284	831	353	67	2,535
Balans ar 31 Mawrth 2025	652	211	7	31	901

Mae incwm gohiriedig ar gyfer y Clwb Blwch Llythyrau a Bookbuzz yn cynrychioli pecynnau a werthwyd cyn iddynt gael eu dosbarthu.

Nodiadau i'r cyfrifon
31 Mawrth 2026

13 Dadansoddiad o asedau net rhwng cronfeydd

	2026			2025		
	Cronfeydd anghyfyngedig	Cronfeydd cyfyngedig	Cyfanswm	Cronfeydd anghyfyngedig	Cronfeydd cyfyngedig	Cyfanswm
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Asedau cyfredol net	6,865	-	6,865	6,159	-	6,159
Asedau net	6,865	-	6,865	6,159	-	6,159

14 Ymrwymiadau ariannol

Bydd ymrwymiadau ariannol o dan brydlesi gweithredu na ellir eu canslo yn arwain at y taliadau hyn yn dod yn ddyledus:

	2026	2025
	Tir ac adeiladau	Tir ac adeiladau
	£'000	£'000
Prydlesi yn dod i ben ymhen:		
Llai na blwyddyn	335	380
Un i bum mlynedd	20	315
	355	695

Nodiadau i'r cyfrifon
31 Mawrth 2026

15 Datganiad cymharol o weithgarwch ariannol

	Cronfeydd anghyfyngedig 2025 £'000	Cronfeydd cyfyngedig 2025 £'000	Cyfanswm cronfeydd 2025 £'000
Incwm o:			
Cyllid statudol	5,788	945	6,733
Partneriaethau corfforaethol	491	67	558
Rhoddion unigol	1,574	13	1,587
Ymddiriedolaethau a sefydliadau	38	1,075	1,113
Gweithgarwch a fasnachir	2,369	-	2,369
Difidendau a llog ar fuddsoddiadau	72	-	72
	10,332	2,100	12,432
Gwariant ar:			
Sicrhau rhoddion	1,044	63	1,107
Gweithgareddau elusennol			
Nod effaith 1	2,048	496	2,544
Nod effaith 2	5,899	1,189	7,088
Nod effaith 3	1,439	352	1,791
	10,430	2,100	12,530
Gwariant net cyn enillion ar fuddsoddiadau	**(98)**	**-**	**(98)**
Enillion net ar fuddsoddiadau	65	-	65
Gwariant net	**(33)**	**-**	**(33)**
Trosglwyddiadau rhwng cronfeydd	**187**	**(187)**	**-**
Symudiad net mewn cronfeydd	**154**	**(187)**	**(33)**
Cyfanswm y cronfeydd a ddygwyd ymlaen	6,005	187	6,192
Cyfanswm y cronfeydd a gariwyd ymlaen	**6,159**	**-**	**6,159**

Gellir dod o hyd i esboniad o bob nod effaith ar dudalen 34.

Nodiadau i'r cyfrifon

31 Mawrth 2026

16 Sefydliad Mohn Westlake

Mae Diana Gerald, Cyd-Brif Swyddog Gweithredol BookTrust, yn un o ymddiriedolwyr Sefydliad Mohn Westlake hefyd. Yn 2024/25, derbyniodd BookTrust grant cyfyngedig gydag amodau perfformio gan Sefydliad Mohn Westlake ar gyfer y cyfnodau 2025 i 2028 gyda gwerth o £3.1m dros y tair blynedd.

Mae Diana hefyd yn gyd-gadeirydd/un o ymddiriedolwyr EURead, cymdeithas nid-er-elw yng Ngwlad Belg. Mae BookTrust yn talu tanysgrifiad blynyddol o €2,500.

BookTrust
Getting children reading

Cysylltu â ni
queries@booktrust.org.uk
booktrust.org.uk
Dilynwch ni ar y cyfryngau cymdeithasol: @BookTrust

©2026 BookTrust. Rhif elusen: 313343

Supported using public funding by
ARTS COUNCIL ENGLAND